



Adolygiad Gwella Ansawdd o'r Brifysgol Agored

Yr Adroddiad Technegol

Mawrth 2021

Cynnwys

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd	1
Yr adolygiad hwn	1
Yr adroddiad yma.....	1
Y feirniadaeth drosfwaol am y Brifysgol Agored	2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad.....	2
2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.....	8
3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu.....	15
4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd	19
5 Darpariaeth gydweithredol	25

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.¹ Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA yn y Brifysgol Agored. Cafwyd yr adolygiad mewn dau gam, fel a ganlyn: yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm ar 16 Chwefror 2021 a'r Ymweliad Adolygu rhwng 15 a 19 Mawrth 2021. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bum adolygwr:

- Yr Athro Gary Campbell (adolygwr)
- Ms Lesley Davis (adolygwr)
- Yr Athro Cysylltiol Christine M Jones (adolygwr)
- Yr Athro Emeritws Diane Meehan (adolygwr)
- Dr Oliver Wannell (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), Adroddiad Newidiadau, a Phhecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yr adroddiad yma

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.³

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

¹ Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd:

www.gaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd

² Rhagor o wybodaeth am QAA: www.gaa.ac.uk/cy/amdanom-ni

³ Yr Adroddiad Canlyniadau:

www.gaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Y-Brifysgol-Agored

Y feirniadaeth drosfwaol am y Brifysgol Agored

Mae'r Brifysgol Agored yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae'r Brifysgol Agored yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd y Brifysgol Agored (y cyfeirir ati hefyd fel 'y Brifysgol' o hyn ymlaen) yn 1969 ac, ers hynny, mae wedi addysgu 2.1 miliwn o fyfyrwyr. Ym mlwyddyn academaidd 2018-19, roedd 168,116 o fyfyrwyr - roedd 118,027 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru'n uniongyrchol yn astudio ar lefel israddedig; roedd 9565 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru'n uniongyrchol yn astudio ar lefel ôl-raddedig a addysgir; roedd 38,526 o fyfyrwyr yn astudio ar lefel israddedig a lefel ôl-raddedig a addysgir mewn sefydliadau partner i gael cymwysterau a ddilysir gan y Brifysgol; ac roedd 910 o fyfyrwyr naill ai wedi eu cofrestru'n uniongyrchol neu'n fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn Canolfannau Ymchwil Cysylltiol. Mae'r myfyrwyr yn astudio ar gyfer 91 o gymwysterau israddedig, 31 o gymwysterau ôl-raddedig a addysgir a chwe chymhwyster ymchwil ôl-raddedig, yn ogystal ag amrywiaeth fawr o dystysgrifau, diplomâu a dyfarniadau nythog eraill (2018-19).

2 Mae'r Brifysgol Agored yn gweithredu ymhob un o bedair gwlad y DU ac mae'n nodedig ymysg darparwyr addysg uwch am ei bod yn darparu model hyblyg o ddysgu agored o bell, gyda chefnogaeth, sy'n galluogi i fyfyrwyr integreiddio eu dysgu gydag ymrwymadau bywyd a gwaith eraill. Mae'n cynnig mynediad agored gyda chefnogaeth ar gyfer y mwyafrif o'r cymwysterau hyd at lefel gradd i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru'n uniongyrchol, beth bynnag fo eu cyrhaeddiad blaenorol mewn addysg ffurfiol. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu addysg i gyfran uchel o bobl sydd angen cymorth arbenigol, megis myfyrwyr ag anabledau a myfyrwyr mewn amgylcheddau diogel. Mae ffocws ar ddarparu deunyddiau dysgu cyhoeddus, ac mae'n hybu cyfiawnder cymdeithasol drwy ddarparu deunyddiau dysgu ac addysgu yn rhad ac am ddim i filiynau o bobl bob blwyddyn drwy bartneriaeth â'r BBC.

3 Hefyd, mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn prosiectau allanol ar y cyd â phrifysgolion eraill, busnesau mawr a bach yn y DU a sefydliadau rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau pwysig, gan gynnwys Prentisiaethau Gradd. Yn rhyngwladol, mae'r Brifysgol yn addysgu ac yn cefnogi ei myfyrwyr gan ddefnyddio ei chynnwys a'i dulliau ei hun, ac mae hi'n cyfrannu at ddatblygu galluedd ymchwil, gan gyrraedd mwy na dwy filiwn o bobl dros 20 oed.

4 Mae'r Brifysgol yn parhau i gynnig ei Gradd Agored hirsefydlog sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddewis modiwlau o'r cwricwlwm israddedig cyfan i greu cyfuniad unigryw o wybodaeth am bynciau. Mae darpariaeth gydweithredol y Brifysgol Agored yn darparu mynediad ehangach i addysg uwch ac yn ehangu cwricwlwm y Brifysgol. Dyma'r prif fathau o bartneriaethau: darpariaeth a ddilysir, partneriaethau cwricwlwm, partneriaethau trosglwyddo, a graddau ymchwil cydweithredol.

5 Mae'r Brifysgol yn recriwtio a chefnogi ei myfyrwyr drwy Ganolfannau Recriwtio a Chefnogi Myfyrwyr yn y cyfadranau ym Milton Keynes, Manceinion a Nottingham, yn ogystal

â swyddfeydd cenedlaethol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae ganddi swyddfa fechan yn Nulyn hefyd.

6 Mae gan y Brifysgol 1,096 o staff academaidd, oddeutu 4,000 o ddarlithwyr cyswllt a thiworiaid ymarfer, 1,953 o staff perthnasol academaidd a 1,575 o staff cymorth. Mae bron i dri chwarter y staff academaidd yn gweithio ym mhencadlys y Brifysgol ym Milton Keynes - lle mae'r rhan fwyaf o staff gweinyddol a staff cymorth y Brifysgol yn gweithio. Yno hefyd y cynllunnir y cymwysterau a'r modiwlau gyda chymorth rhai aelodau o staff sy'n gweithio gartref ac aelodau o staff sy'n gweithio yn swyddfeydd eraill y Brifysgol. Ym Milton Keynes hefyd y cynhyrchir llyfrynau gwybodaeth a llawlyfrau, ac y gwneir y trefniadau ar gyfer arholiadau a chasglu ffioedd.

7 Yn ystod 2015-16, cafodd y Brifysgol ei haildrefnu o saith i bedair cyfadran sydd â nifer o ysgolion. Dyma'r pedair cyfadran: Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; y Gyfadran Busnes a'r Gyfraith; y Gyfadran Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg; a'r Gyfadran Lles, Addysg ac Astudiaethau Ieithyddol.

8 Y Cyngor yw'r corff llywodraethu ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod datblygiad strategol a threfniadau rheoli sefydliadol ac ariannol y Brifysgol yn effeithiol. Gan y Cyngor y mae'r cyfrifoldeb pennaf am holl faterion gweinyddu'r Brifysgol - gan gynnwys cynllunio strategol; monitro'r effeithiolrwydd a'r perfformiad; archwilio; a rheoli'r cyllid, yr ystâd a'r adnoddau dynol - ac mae'n atebol i'r cyrff cyllido a rheoleiddio ym mhedair gwlad y DU.

1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

9 Mae 75% (127,504) o fyfyrwyr y Brifysgol yn astudio yn Lloegr (sef y ffigurau ar gyfer 2018-19), ac mae presenoldeb cryf gan y Brifysgol yn yr Alban (23,694 o fyfyrwyr - 14%), Cymru (12,123 o fyfyrwyr - 7%) a Gogledd Iwerddon (5,821 - 3% o'r myfyrwyr). Mae 1,003 o fyfyrwyr yn astudio yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac mae myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sydd wedi eu cofrestru'n uniongyrchol yn astudio dramor - 4,567 o fyfyrwyr yn yr Undeb Ewropeaidd (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon) a 2,030 mewn gwledydd eraill.

10 Does dim myfyriwr sy'n 'nodweddiadol' i'r Brifysgol Agored am fod pobl o bob oedran a phob cefndir, ledled y DU a thu hwnt, yn astudio yn y Brifysgol. Mae myfyrwyr y Brifysgol yn tueddu i fod yn hŷn na myfyrwyr llawn amser 'traddodiadol' mewn prifysgolion eraill, ond mae oed cyfartalog y myfyrwyr yn gostwng, ac mae traean ohonynt bellach yn 24 oed neu'n iau. Y Brifysgol hon yw'r darparwr addysg uwch mwyaf ond deg yn Lloegr i fyfyrwyr sy'n 20 oed neu'n iau o ardaloedd o gyfranogaeth isel.

11 Mae'r Brifysgol yn teilwra ei dulliau i ateb anghenion dysgwyr sy'n oedolion, y mae gan 33% ohonynt gymwysterau addysg blaenorol isel (llai na dau gymhwyster Safon Uwch). Mae modiwlau Mynediad Lefel 0, yn arbennig, wedi eu llunio i helpu'r bobl hynny sydd heb astudio ers tro byd i ymgysgu'rwyddo eto â byd addysg. Yn rhan o'r Strategaeth Mynediad, Cyfranogaeth a Llwyddiant mae nodau a dulliau sydd wedi eu teilwra'n benodol i wlad berthnasol y myfyriwr o fewn y DU ac mae'r rhain yn amcanu i leihau'r gwahaniaethau rhwng myfyrwyr duon, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig a myfyrwyr ag anabledau o ran eu cyrhaeddiad a'r graddau a enillir ganddynt.

12 Mae nifer o fyfyrwyr yn astudio am 60 credyd y flwyddyn, ond mae hefyd nifer cynyddol o fyfyrwyr yn astudio ar lefel uwch o ddwyyster (diffinnir hyn fel 90 i 120 credyd y flwyddyn). Yn rhan o'r mentrau i hybu llwyddiant y myfyrwyr, mae gwaith yn digwydd i weithredu model cadarn, hyblyg o astudio dwys sy'n ei gwneud yn haws i fyfyrwyr amrywio pa mor gyflym y

maen nhw'n gweithio drwy eu cymwysterau. Mae amrywiaeth o adnoddau wedi eu datblygu i alluogi i'r staff a'r myfyrwyr gefnogi'r myfyrwyr hyn.

13 Mae'r Brifysgol yn cefnogi cyfran uchel o fyfyrwyr rhan amser sy'n gweld llwyddo mewn addysg uwch yn her. Mae swydd gyflogedig gan y mwyafrif o'r myfyrwyr rhan amser ac mae ganddynt amrywiaeth o ymrwymadau ariannol a phersonol. Mae cyfran anghyfartal o'r myfyrwyr rhan amser yn perthyn i'r categorïau hyn: myfyrwyr sydd ag incwm gwario isel; y rheiny sydd wedi datgelu anabledau; pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu; y cyntaf yn eu teuluoedd i fynd i'r brifysgol; a'r rhai sydd â rhwystrau i'w hatal rhag symud o un ardal i un arall.

14 Un her arbennig i'r Brifysgol yw mesur y canlyniadau llwyddiannus i ddysgwyr sy'n oedolion. Efallai na fyddent yn gweld manteision eu hastudiaethau ar unwaith, a gall gymryd blynyddoedd iddynt fod mewn sefyllfa i allu newid swydd neu yrfa, neu ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt fel graddedigion yn y gweithle. Yn yr un modd, ni fyddent yn debygol o allu symud ymlaen i wneud astudiaethau pellach ar unwaith, oherwydd bydd y mwyafrif o fyfyrwyr y Brifysgol wedi astudio am chwe blynedd o leiaf ochr yn ochr â'u hymrwymadau eraill, ac mae angen i bob unigolyn feddwl yn ofalus cyn penderfynu a ydynt am wneud astudiaethau pellach. Am y rhesymau hynny, nid yw'r data am ddysgwyr sy'n oedolion yn yr Arolwg o Ganlyniadau Graddedigion yn adlewyrchiad o ganlyniadau addysg uwch 'traddodiadol' o anghenraid.

15 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd fwy ar ddadansoddi data dysgwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n peri i fyfyrwyr y Brifysgol aros ar eu cyrsiau a dangos cynnydd. Mae'r system 'OU Analyse' yn defnyddio technegau dysgu peirianyddol ar ddau fath o ddata, sef data demograffig a data dynamig am y myfyrwyr, sy'n cynrychioli eu gweithgareddau ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r system 'Analytics for Action (A4A)' yn defnyddio dull ehangach drwy ystyried natur yr ymyriadau y mae timau cymorth myfyrwyr yn eu gwneud a gwerthuso eu llwyddiant. Defnyddir dulliau dadansoddi data dysgwyr yn rhan o'r broses fonitro flynyddol a bydd gwaith pellach yn datblygu ac yn defnyddio dulliau dadansoddi o'r fath ar amrywiaeth o lefelau eraill, gan gynnwys o safbwynt gwlad benodol.

16 Hefyd, gwnaed newidiadau diweddar i reoliadau'r Brifysgol er mwyn gallu cydnabod llwyddiant y myfyrwyr yn fwy effeithiol. Cyflwynwyd y Polisi Asesu Elfen Sengl yn 2018 er mwyn dangos llwyddiant y myfyrwr yn decach ac i sicrhau bod arferion y Brifysgol yn cyfateb yn well ag arferion ar draws y sector. Trwy godi'r marc pasio trothwy ar lefel ôl-raddedig a addysgir o 40% i 50% yn 2019, a hynny heb newid y safon sy'n ofynnol er mwyn pasio, cafwyd mwy o gyfatebiaeth rhwng y Brifysgol a sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU a'i phartneriaid a ddilysir ganddi, ac mae hyn yn sicrhau nad yw cyflogwyr posibl a phobl eraill yn ystyried bod cymwysterau'r myfyrwyr o werth is nag y maent.

1.3 Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

17 Mae'r Brifysgol yn atebol i bedair llywodraeth y DU, ac mae'n sicrhau fod gofynion ariannu a pholisïau gwahanol y gwledydd unigol wedi eu cydbwyso, gan ddarparu cynnig cyson a chydlynol drwy'r DU gyfan ar yr un pryd. Bydd yn monitro heriau'n rheolaidd ac mae'r heriau hynny'n cynnwys yr angen i ddeall y rheoliadau addysg uwch sydd â'u harlliwiau gwahanol eu hunain ac sy'n mynd yn fwyfwy gwahanol i'w gilydd, yn ogystal â'r ffyrdd gwahanol o ymdrin â chystadleuaeth ac â darparwyr amgen.

18 Mae gwahaniaethau cymhleth ac amrywiol mewn ffioedd ac amgylcheddau ariannu, gofynion ieithyddol, ac anghenion cymorth y gwahanol fyfyrwyr, yn ogystal â llwybrau gwahanol i mewn i addysg uwch/systemau addysg a chymwysterau amrywiol. Mae'r atebolrwydd am ariannu cyhoeddus mewn pedair gwlad a phedair cyfres o ofynion gan bedwar corff cyllido/rheoleiddio'n sialens sylweddol.

19 Yna, mae heriau ychwanegol mewn darparu cwricwlwm, gwybodaeth wedi ei theilwra, a chyngor ac arweiniad penodol i bob un o bedair gwlad y DU. Mae'r myfyrwyr israddedig rhan amser (a myfyrwyr y Brifysgol) yn amrywio fesul gwlad, a hynny'n fwyaf arwyddocaol yn eu profiad blaenorol o addysg bellach, eu nodau o ran cymhwyster a'r pynciau a astudir ganddynt.

20 Mae'r manteision yn cynnwys arbedion maint, a gall pob gwlad elwa o hyn. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cynrychioli cyfran gynyddol o sail incwm y Brifysgol ac maent yn treialu dulliau arloesol o amrywiaethu incwm drwy'r amser. Hefyd, maen nhw'n helpu i ledw ehangder cynyddol y cyfranogwyr y gall y Brifysgol eu cyrraedd.

21 Yn y gwledydd Celtaidd mae gwella ansawdd yn nod gofynnol, ac mae hyn o fudd i'r ddarpariaeth yn Lloegr. Adeiladir cysylltiadau cryf â busnes ac â llywodraeth ar lefel leol, ac am fod y Brifysgol Agored yn cael ei hystyried yn brifysgol berthnasol i'r wlad benodol yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac yn Lloegr fel ei gilydd, gall fanteisio ar ariannu a chyfluoedd ymhob un o'r gwledydd unigol. Yn yr un modd, gall unrhyw gyfluoedd arloesol sy'n llwyddo mewn un wlad gael eu defnyddio yn y gwledydd eraill hefyd; mae hyn yn cyd-fynd â chenhadaeth y Brifysgol i fod yn gymwys a phriodol i anghenion a hinsawdd wleidyddol pob gwlad unigol.

1.4 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

22 Rheolwyd y paratodau ar gyfer ymweliad QAA gan reolwr uwch o dîm Polisi Cwricwlwm a Sicrhau Ansawdd (Polisi CSA) y Brifysgol. Hefyd, penodwyd dau arweinydd academiaidd o blith staff y cyfadranau i weithio gyda rheolwr y tîm Polisi CSA er mwyn helpu i lywio gwaith paratoi'r Brifysgol ar gyfer yr ymweliad gan QAA, yn enwedig y gwaith o ddatblygu'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau. Roedd Grŵp Cyfeirio, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), oedd yn cynnwys aelodau uwch o staff unedau academiaidd ac anacademaidd ymhob un o bedair gwlad y DU, yn goruchwyllo a chyfrannu at y gwaith o ddrafftio'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau, yn ogystal â darparu cyngor ac arweiniad am y 'meysydd ffocws' ar gyfer yr adolygiad a'r heriau a'r risgiau i'r Brifysgol. Cynhaliodd rheolwr uwch y tîm Polisi CSA sesiynau briffio i'r staff a'r myfyrwyr hefyd er mwyn esbonio eu rôl yn yr adolygiad ac i'w hannog i ymgysylltu â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a chyfrannu ato.

23 Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Ansawdd Academiaidd (Pwyllgor LIAA) yn gweithredu fel pwyllgor llywio ar gyfer y broses adolygu ac roedd yn gyfrifol am gymeradwyaeth derfynol y Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau. Derbyniodd pwyllgorau allweddol eraill, gan gynnwys y Senedd a'r Cyngor, adroddiadau rheolaidd am gynnydd drwy gydol y broses o baratoi ar gyfer yr adolygiad, a chyflwynwyd fersiynau terfynol y Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau hefyd i Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor cyn eu cyflwyno i QAA.

24 Cynhwysodd y Brifysgol ei myfyrwyr yn ei gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, a hynny i ddechrau drwy Gymdeithas y Myfyrwyr ac wedyn drwy'r ddau Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd. O'r cychwyn un, roedd Grŵp Cyfeirio'r Adolygiad Gwella Ansawdd yn cynnwys dau aelod oedd yn fyfyrwyr: y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr a, chyn hynny, Llywydd Cymdeithas y Myfyrwyr ac un myfyriwr arall. Rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Grŵp Cyfeirio, mae'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr wedi cynnig cyngor ar ddogfennau'r Brifysgol ac wedi rhannu drafftiau o gyflwyniad y myfyrwyr gyda'r Grŵp Cyfeirio. Hefyd, darparodd y Brifysgol wybodaeth a data i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr i'w helpu i gwblhau eu cyflwyniad.

25 Bu gwirfoddolwyr o blith staff y sefydliadau partner cydweithredol yn adolygu'r adrannau o'r ddogfennaeth ddrafft sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol a darparodd 10 sefydliad adborth cyn i'r dogfennau gael eu cymeradwyo'n derfynol.

1.5 Crynodeb byr o natur a rhesymeg y meysydd penodol y dylai'r adolygiad a'r hunanwerthusiad ganolbwyntio arnynt

26 Nododd Grŵp Cyfeirio'r Adolygiad Gwella Ansawdd dri maes ffocws sy'n hanfodol i genhadaeth ac amcanion strategol y Brifysgol ac sy'n cyflwyno heriau ac enghreifftiau o arferion rhagorol.

Mynediad agored

27 Mae mynediad i addysg uwch ar y lefel 'gywir' i'r myfyrwyr yn greiddiol i bolisi mynediad agored y Brifysgol ac mae hyn yn creu nifer o heriau oherwydd yr amrywiaeth yng nghefndiroedd ac amgylchiadau bywyd y myfyrwyr. Rhoddir llawer o sylw i'r rhaglen Mynediad, a rhoddir cyngor ac arweiniad ar-lein ac un-i-un i'r myfyrwyr i'w helpu i ddechrau eu hastudiaethau ar y lefel gywir. Gallai modiwl Mynediad fod yn bwynt cychwyn posibl i'r bobl nad ydynt yn teimlo eu bod yn barod ar gyfer astudio ar lefel addysg uwch.

28 Mae data diweddar yn dangos bod myfyrwyr sy'n astudio modiwl Mynediad yn fwy tebygol o basio eu modiwlau Lefel 1 (Lefel 4 yn y FHEQ), ac yn fwy tebygol o gyflwyno eu haseiniadau i gyd, o gysylltu â'u tiwtoriaid Lefel 1 ac o basio gyda marc uwch.

Llwyddiant y myfyrwyr

29 Am fod eu llwyddiant yn greiddiol i'r Brifysgol, mae demograffeg a nodau astudio newidiol y myfyrwyr wedi sbarduno nifer o fentrau, yn cynnwys mwy o gefnogaeth i lwyddo. Ymysg yr enghreifftiau o hyn mae cymorth cyn cofrestru, cefnogaeth i ystwytho dwysedd yr astudiaeth, a rhagor o gymorth ar Lefel 1 (Lefel 4 yn y FHEQ) i alluogi i fyfyrwyr fagu hyder. Am fod cadwraeth a chynnydd yn heriau mawr, rhoddir llawer o sylw i baratoi myfyrwyr ar gyfer maint priodol o gredyd, am fod nifer cynyddol ohonynt yn dewis astudiaeth sy'n gyfatebol ag amser llawn. Rhoddir sylw hefyd i wella'r cyfathrebiad â myfyrwyr er mwyn eu galluogi i symud ymlaen drwy eu dewis fodiwlau a chymwysterau.

30 Yn gynyddol, mae llwyddiant y myfyrwyr wedi ei fesur yn ôl eu llwyddiant i symud ymlaen i gyflogaeth, ac mae cysylltu ac amlygu sgiliau cyflogadwyedd yn flaenoriaeth erbyn hyn ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi croesawu'r pwyslais ar brentisiaethau a hyrwyddwyd yn ddiweddar gan y llywodraeth, ac mae'n bwriadu ehangu ei rhaglen. Parheir i roi sylw â ffocws i heriau'r amgylchedd ar-lein i fyfyrwyr sydd mewn amgylcheddau diogel.

Llais y myfyrwyr

31 Cred y Brifysgol nad oes modd cyflawni nodau llwyddiant y myfyrwyr heb wrando ar adborth a gweithredu arno, ac ar weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr i wella eu profiad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd blaenoriaeth gynyddol i lais y myfyrwyr, gan wreiddio'r gwaith hwn ym mhortffolio'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr). Ar y dechrau, defnyddiodd y Brifysgol ganlyniadau arolygon diwedd modiwl i sicrhau a gwella ansawdd ond, yn fwy diweddar, mae'r gweithgareddau i gasglu llais y myfyrwyr wedi ehangu i gynnwys panelau, profi profiad y defnyddiwr, ymgynghori eang ar-lein a gweithio mewn partneriaeth.

32 Mae perthynas waith gref rhwng y Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr, sydd wedi ei seilio ar Gytundeb Cydberthynas a chymhorthdal ariannol a adolygir yn flynyddol, a chynhelir cyfarfodydd misol rhwng Llywydd Cymdeithas y Myfyrwyr a Phrif Weithredwr y Brifysgol, a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), yn ogystal ag aelodau o'r uwch dîm rheoli.

33 Mae Grŵp Llywio Llais y Myfyrwyr yn defnyddio dull partneriaeth, ac mae cynrychiolwyr Cymdeithas y Myfyrwyr yn cael eu cynnwys ar bob lefel o'r gwaith llywio ac mewn nifer o weithgorau a thimau prosiect, yn ogystal â chael eu cynnwys ar lefel genedlaethol ac yn ehangach ar draws y Brifysgol.

1.6 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

34 Cafodd y Brifysgol ei hadolygu ddiwethaf gan QAA ym mis Rhagfyr 2015 o dan y dull Adolygiad Addysg Uwch, a derbyniodd feirniadaeth gadarnhaol ymhob un o'r meysydd. Nodwyd pum nodwedd o arfer da, tri argymhelliad a saith cadarnhad. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Addysg Uwch gan y Pwyllgor LIAA ym mis Chwefror 2016, a gan Bwyllgor Gweithredol Canolog Cymdeithas y Myfyrwyr ym mis Mawrth 2016. Cyhoeddwyd y cynllun ar wefan gyhoeddus y Brifysgol ar 20 Mai 2016, a gwnaed gwaith oedd yn dilyn y cynllun gweithredu drwy gydol 2016 a 2017. Roedd y Pwyllgor LIAA yn rhoi ystyriaeth reolaidd i'r adroddiadau am gynnydd ac i adroddiad tracio'r camau gweithredu.

35 Cyflwynwyd adroddiad llawn/adroddiad tracio camau gweithredu i'r Pwyllgor LIAA ym mis Hydref 2017 i ddangos y cynnydd hyd hynny, yng nghyd-destun y newidiadau diweddar yn strwythurau a phrosesau'r Brifysgol. Dangosodd yr adroddiad bod y tri argymhelliad wedi derbyn sylw a bod camau gweithredu yn ymwneud â thair o'r pum nodwedd o arfer da a chwech o'r saith cadarnhad, wedi eu cwblhau neu'n agos at gael eu cwblhau.

36 Ym mis Mai 2019, derbyniodd y Pwyllgor LIAA adroddiad terfynol am y cynnydd ac roedd hwn yn cadarnhau bod y cam gweithredu oedd yn ymwneud â'r cadarnhad oedd heb ei weithredu wedi cael ei gwblhau. Hefyd, rhoddodd ragor o esboniad am ddatblygiadau yn ymwneud â'r ddwy nodwedd arall o arfer da. Roedd y gyntaf o'r rhain - rôl y prif arholwyr allanol ar Fyrddau Cwblhad a Chynnydd - wedi eu gohirio gan Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor i roi cyfle i'r Brifysgol ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol oedd yn cynnwys Amnewid Systemau Craidd. Ym mis Ionawr 2020, trosglwyddwyd y camau pellach yn ymwneud â'r ail esiampl o arfer da (cyflwyno deunydd gwybodaeth prif ffrwd mewn print yn awtomataidd ar alw i bob modiwl) i mewn i raglen Strategaeth Addasu Dysgu'r Myfyrwyr.

1.7 Manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth â nhw

37 Mae gan y Brifysgol drefniadau darpariaeth gydweithredol eang sy'n cynnwys partneriaethau â chyrff dyfarnu graddau eraill drwy bartneriaethau dilysu, partneriaethau cwricwlwm, partneriaethau trosglwyddo, a graddau ymchwil cydweithredol.

2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

2.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

38 Ers yr adolygiad diwethaf, mae strategaeth y Brifysgol wedi canolbwyntio i raddau mawr ar brofiad y myfyrwyr. Yn benodol, mae'r Brifysgol wedi creu swydd y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) i weithredu fel hyrwyddwr profiad y myfyrwyr o fewn yr uwch dîm rheoli ac ar draws y sefydliad cyfan. O ganlyniad i sefydlu strwythur newydd i ddarparu gweithgareddau gwella llwyddiant y myfyrwyr, mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n gofyn am gymorth a chydgyssylltiad canolog ac mae'r cyfadrannau'n goruchwyllo eu gweithgareddau perthnasol nhw eu hunain. Mae'r trefniant hwn yn cyfateb â'r argymhellion a gafwyd yn yr adolygiad o'r rhaglen o newidiadau strategol.

39 Gan weithio'n agos â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), mae'r Prif Swyddog Gwybodaeth yn goruchwyllo'r Uned Dadansoddi Data Myfyrwyr (DDA), a sefydlwyd yn 2018 i wella gallu'r Brifysgol i ddefnyddio data ym meysydd cymorth myfyrwyr a llwyddiant myfyrwyr. O'r data hwn, cynhyrchir dangosfyrddau â ffocws mewn fformat hygyrch i fyfyrwyr sy'n alinio â dangosyddion perfformiad allweddol sydd newydd eu cyflwyno a'r strategaeth sefydliadol ddiwygiedig. Mae hyn yn galluogi i'r cyfadrannau osod eu targedau realistig a chyraeddadwy eu hunain i wella profiad y myfyrwyr, tra bo'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) yn cynnal goruchwyliaeth strategol i sicrhau bod gweithgareddau'n alinio i gefnogi conglfeini llwyddiant y myfyrwyr, megis boddhad, ehangu mynediad, y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a chyflogadwyedd. Yn ystod ei gyfarfodydd â staff uwch, staff academiaidd a staff cymorth, dywedwyd wrth y tîm adolygu fod y mecanweithiau hyn yn effeithiol o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, cefnogi mynediad a gwella profiad y myfyrwyr. Mae hyn yn cefnogi'r ganmoliaeth sydd wedi ei nodi ym mharagraff 80.

40 Mae'r Athrofa Technoleg Addysg yn cefnogi'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) i wella profiad y myfyrwyr hefyd. Er enghraifft, mae'r Tîm Gwella Ansawdd ac Arloesi yn yr Athrofa wedi datblygu dull newydd o ymchwilio i deithiau llwyddiant y myfyrwyr ar y gwahanol lwybrau tuag at gymwysterau, gan gynnwys arolwg i ganfod beth yw profiad y myfyrwyr o'r asesiad, adborth ac adolygu. Yn fwy diweddar, mae'r Athrofa wedi cynnal arolwg o hapsampl o'r myfyrwyr er mwyn dod i ddeall a mynd i'r afael ag effaith y pandemig COVID-19 ar brofiad y myfyrwyr. Dywedodd pob un o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw fod y Brifysgol wedi cynyddu ei chefnogaeth yn ystod y pandemig COVID-19 a'i bod wedi gwneud addasiadau rhesymol i leihau unrhyw effaith ar brofiad y myfyrwyr.

2.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

41 Mae Siarter y Myfyrwyr yn ymgrynhoi ymrwymiad y Brifysgol i weithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr. Mae'r ddogfen hon, ochr yn ochr â'r Cytundeb Cydberthynas rhwng y Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr, yn disgrifio'r berthynas rhwng y Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr yn glir. Mae'r ddwy ddogfen yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y Brifysgol, a chafodd yr adolygiad diweddaraf ei noddi ar y cyd gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) a Llywydd Cymdeithas y Myfyrwyr.

42 Mae gan y Brifysgol Grŵp Llywio Llais y Myfyrwyr, dan gyd-gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) a Llywydd Cymdeithas y Myfyrwyr, sydd â'r cylch gwaith o fonitro a datblygu'r gweithgareddau i gasglu llais y myfyrwyr o fewn y Brifysgol. Mae'r Grŵp Llywio'n ceisio hybu diwylliant o bartneriaeth lle gwrandewir ar lais y myfyrwyr ac y gweithredir ar yr hyn a ddywedir. Yn unol â hyn, y drefn arferol gan y sefydliad yw bod seddi parhaol gan gynrychiolwyr y myfyrwyr, sy'n cael eu hyfforddi gan Gymdeithas y Myfyrwyr, ar amrywiaeth o bwyllgorau, gan gynnwys Grŵp Cynghori'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), Byrddau Astudiaethau, nifer o grwpiau llywio a Chyngor y Brifysgol. I ategu eu hyfforddiant a'u cynorthwyo yn eu rôl, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn derbyn Llawlyfr i Wirfoddolwyr gan Gymdeithas y Myfyrwyr.

43 Hefyd, mae'r Brifysgol yn defnyddio ffurflenni adborth ar-lein i gasglu llais y myfyrwyr ar lefelau'r modiwlau, y rhaglenni a'r cyfadrannau, yn ogystal â grwpiau ffocws, arolygon mewnol ac allanol ac 'adborth amser real y myfyrwyr' ar y rhith-amgylchedd dysgu. Gan swyddfa'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) y mae'r cyfrifoldeb am fonitro sylwadau o ddata'r myfyrwyr, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), yr Arolwg o Brofiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES), yr Arolwg o Brofiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (PRES), a'r Arolwg o Brofiad Myfyrwyr ar Fodiwlau (SEaM). Mae swyddfa'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) yn cynhyrchu adroddiad cipolwg blynyddol sy'n derbyn ystyriaeth gan y Pwyllgor LIAA. Defnyddir data'r PRES, yn arbennig gan Gyfarwyddwr yr Ysgol Graddedigion a Grŵp yr Ymchwilwyr Ôl-raddedig sy'n cyfarfod bob mis, i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud yn benodol â myfyrwyr ymchwil ac i annog deialog rhwng y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a'u cyfadrannau perthnasol.

44 Yn 2018, lansiodd y Brifysgol wefan Llais y Myfyrwyr mewn partneriaeth â Chymdeithas y Myfyrwyr. Nod penodol y wefan hon yw cynyddu'r ymgysylltiad â'r myfyrwyr ac mae'n hawdd gweld arolygon myfyrwyr ac ymgynghoriadau â myfyrwyr arni. Mae hi hefyd yn hysbysebu ymgyrch 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' y Brifysgol er mwyn dangos mor bwysig yw llais y myfyrwyr i'r Brifysgol. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cynyddu nifer a gwelededd yr ymatebion 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' fel un o ddeilliannau Cynllun Gweithredu Llais y Myfyrwyr, sydd yn ei drydedd flwyddyn erbyn hyn.

45 Er bod y mecanweithiau hyn ar waith, mae cyflwyniad y myfyrwyr yn nodi bod rhai o arferion y Brifysgol yn rhwystro cyfranogaeth y myfyrwyr. Er enghraifft, y ffaith bod y cyfarfodydd pwyllgorau ar amseroedd ac mewn lleoedd nad yw'r myfyrwyr sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofalu'n gallu'n mynd iddynt. Yn ogystal, yn ôl yr hyn a ddywedir, mae'r Cytundeb Cydberthynas rhwng y Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr yn rhwystro trafodaeth agored ymysg cynrychiolwyr y myfyrwyr a rhwng cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r corff myfyrwyr. Nid oedd unrhyw un o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n ystyried bod amser neu leoliad y cyfarfodydd yn eu rhwystro rhag cyfranogi. Dywedodd y myfyrwyr bod y Brifysgol wedi gwneud, ac yn parhau i wneud, addasiadau rhesymol i alluogi i fyfyrwyr eu mynychu, gan gynnwys cynnig cymorthdaliadau teithio a'r opsiwn i fynychu ar-lein. Fodd bynnag, roedd y myfyrwyr yn cytuno gyda chyflwyniad y myfyrwyr, bod y ffordd y defnyddir y Cytundeb Cydberthynas yn atal trafodaeth ymysg y corff myfyrwyr. Yn fwyaf arbennig, mae'r cytundeb yn gwahardd cynrychiolwyr y myfyrwyr rhag trafod papurau sydd â'r label 'cyfrinachol' ac mae hyn yn golygu na cheir trafod yr eitemau hyn gyda chydweithwyr yng Nghymdeithas y Myfyrwyr ac na cheir rhoi gwybod am ddiweddariadau i fyfyrwyr ar faterion pwysig. O ganlyniad, mae rhai myfyrwyr yn teimlo nad yw'r Brifysgol yn ymateb i'w pryderon. Felly, mae'r tîm yn **argymell** bod y Brifysgol yn adolygu'r defnydd a wneir o'r Cytundeb Cydberthynas er mwyn galluogi i gynrychiolwyr y myfyrwyr gyfathrebu â'r corff myfyrwyr yn haws ynglŷn â chmau i gau dolenni adborth.

46 Mae'r tîm adolygu'n nodi mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am ymgysylltiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso ac yng nghyflwyniad y myfyrwyr. Nid oedd unrhyw un o'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n ymwybodol o'r naill ddogfen na'r llall ac nid oedd unrhyw un ohonynt wedi bod yn rhan o'r broses adolygu. Er bod pob un o'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n fodlon y gallent leisio pryderon i'w goruchwylwyr, nid oedd y mwyafrif ohonynt yn gwybod beth oedd y mecanweithiau ffurfiol ar gyfer casglu llais y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. I'r un graddau, nid oedd y staff academiaidd a'r staff cymorth yn gwybod am y mecanweithiau hyn. Mae'r tîm adolygu'n fodlon bod fforwm yn bodoli yn yr Ysgol Graddedigion ar gyfer trafod gyda myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ond nid yw'n eglur sut mae'r fforwm hwn yn perthyn ac yn gweithredu rhwng y Brifysgol, yr Ysgol Graddedigion a Chymdeithas y Myfyrwyr. Mewn cyfarfodydd, ni allai'r staff na'r myfyrwyr egluro hyn, ac nid oedd y mwyafrif ohonynt yn gwybod am Grŵp Cyswllt yr Ysgol Graddedigion a'r Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig. Mae cofnodion diweddaraf y grŵp yn dangos bod ei haelodau'n ymwybodol nad yw'n gweithredu'n dda fel corff i gynrychioli myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y

Brifysgol yn gweithio gyda Chymdeithas y Myfyrwyr i ddatblygu a gweithredu dull effeithiol o gasglu llais y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac ymateb iddo.

2.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio

47 Mae gan y Brifysgol boblogaeth hynod amrywiol o fyfyrwyr, a chyfarfu'r tîm adolygu ag amrywiaeth eang o fyfyrwyr ar wahanol lefelau astudio ac mewn gwahanol gyd-destunau. Mae Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol a'i Strategaeth Mynediad, Cyfranogaeth a Llwyddiant yn darparu'r fframwaith i atal gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cyfle cyfartal i'r staff a'r myfyrwyr. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), fel yr aelod gweithredol sydd â'r cylch gwaith o ymdrin â phrofiad y myfyrwyr, yn goruchwyllo'r agwedd o'r gwaith hwn sy'n wynebu'r myfyrwyr. Yn rhan o'r fframwaith hwn, mae pob polisi, gweithdrefn a phroses newydd yn cael eu hasesu drwy wneud dadansoddiad o gydraddoldeb cyn eu cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

48 Mae Polisi Amrywiaeth Cyngor y Brifysgol yn cynnwys targedau penodol ar gyfer cydraddoldeb, ac mae'r Brifysgol wrthi'n cyflwyno Mesurau Perfformiad Allweddol ar gyfer mynediad, cyfranogaeth a llwyddiant. Mae'r rhain yn cynnwys: cynyddu nifer y myfyrwyr duon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig; gostwng canlyniadau anghyfartal i'r grŵp hwn o fyfyrwyr ac i fyfyrwyr ag anabledau; a chynnal y gyfran o fyfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd lluosog mwyaf difrifol yn ôl y mynegai. Mae'r staff i gyd yn derbyn hyfforddiant gorfodol am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod eu cyfnod cynefino, a dylid nodi bod y farn gymysg ymhlith y myfyrwyr am benderfyniad strategol y Brifysgol i symud i ddulliau dysgu ac addysgu 'ar-lein yn unig' yn ymwneud â mwy na dim ond hygyrchedd, fel y byddai'r paragraff hwn yn ei awgrymu o bosibl. Mae myfyrwyr o bob oedran yn pryderu hefyd na fydd y trefniant hwn yn gallu darparu ar gyfer yr holl wahanol ffyrdd o ddysgu. Maen nhw hefyd yn pryderu am effaith treulio gormod o amser o flaen sgrin ar eu hiechyd a'u diogelwch, yn enwedig y bobl hynny sy'n gorfod defnyddio cyfrifiaduron drwy'r dydd yn eu gweithleoedd.

49 Mae'r Brifysgol yn ystyried rhoi rhagor o hyfforddiant am ragfarn anymwybodol ac iechyd meddwl. Yn goruchwyllo dull y Brifysgol o adnabod ac ymateb i amrywiaeth y corff myfyrwyr mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) sydd, gyda chefnogaeth aelodau o staff y cyfadranau a'r tîm DA, yn goruchwyllo darpariaeth y mentrau i gefnogi anghenion y myfyrwyr. Mae'r gefnogaeth benodol yn cynnwys: Gwasanaeth Cyngor am Anabledd a Thîm Chymorth Anabledd i roi cyngor a hyfforddiant arbenigol i staff a chefnogaeth i fyfyrwyr, yn y drefn honno; hyfforddiant mewn iechyd meddwl i weithwyr cymorth cyntaf; deunyddiau mewn fformatau eraill, a Chanolfan Cymorth digidol y Brifysgol.

50 Rhoddir gwybodaeth a chefnogaeth i ddarparu fyfyrwyr gan y Canolfannau Recriwtio a Chefnogi Myfyrwyr ym mhob ysgol i'w cefnogi i drosglwyddo i addysg uwch a rhoi gwybod iddynt am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Fel arfer, mae'r myfyrwyr yn sicrhau cymorth drwy Dim Cymorth Myfyrwyr eu hysgol, a chânt eu cyfeirio atynt gan ddarlithwyr cyswllt, tiwtoriaid ymarfer, goruchwylwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr.

51 Teimlai'r myfyrwyr fod y cymorth sydd ar gael iddynt yn hygyrch a defnyddiol. Roedden nhw'n dweud bod yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael yn ystod y cyfnod cynefino, yn ychwanegol at y modiwlau Mynediad lle bo'n berthnasol, yn arbennig o ddefnyddiol i sicrhau bod myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol a myfyrwyr gydag amrywiaeth o brofiadau a galluoedd yn cael y cyfle i lwyddo. Fodd bynnag, mae adroddiadau cyflwyniad y myfyrwyr yn dweud bod gan fyfyrwyr deimladau cymysg am benderfyniad strategol y Brifysgol i symud i ddulliau 'ar-lein yn unig' o ddysgu ac addysgu nad ydynt yn hygyrch i bob myfyrwr. Er bod y Brifysgol wedi ei hymrwymo i ddarparu fformatau eraill i'r myfyrwyr sydd eu hangen, soniodd rhai o'r myfyrwyr bod yn rhaid aros peth amser cyn cael gafael ar y rhain, a bod hyn yn amharu ar

eu hastudiaethau yn y pen draw. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod deunyddiau addysgu'n cael eu darparu'n brydlon mewn fformatau eraill er mwyn sicrhau nad yw'r myfyrwyr sydd eu hangen dan anfantais.

2.4 Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil

52 Mae profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn y Brifysgol Agored yn adlewyrchu profiad y myfyrwyr israddedig o systemau, cwricwla a dulliau dysgu ac addysgu sydd wedi eu llunio i ddarparu cynnig hyblyg i fyfyrwyr, ond bod hynny ar raddfa ôl-raddedig. Fodd bynnag, nid yw profiadau'r myfyrwyr israddedig a'r myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn cyd-asio. Mae'r Brifysgol yn defnyddio data (mewnol ac allanol) yn benodol am fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir, cynrychiolwyr myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a gwerthusiadau o fodiwlau ôl-raddedig a addysgir i wella profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir. Mae data diweddaraf y PTES yn dangos cyfradd boddhad cyffredinol o 84% ymysg myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir, sef cynnydd o 1% ar ffigur 2019.

53 Mae profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn debycach i'r profiad mewn prifysgol gonfensiynol. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig llawn amser yn astudio ar y campws ym Milton Keynes neu drwy Ganolfan Ymchwil Gysylltiol, ond mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n astudio'n rhan amser wedi eu gwasgaru ar draws y DU a thu hwnt. Mae'r Brifysgol yn cynnig amrediad eang o raddau ymchwil ôl-raddedig sy'n cynnwys graddau meistr mewn athroniaeth (MPhil), graddau doethuriaeth (PhD), graddau PhD ar sail cyhoeddiadau blaenorol, a graddau doethuriaeth broffesiynol. Mae'r rheoliadau perthnasol yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Yr Ysgol Graddedigion sy'n goruchwylio profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i raddau mawr, ac mae hon yn cefnogi hyfforddiant ymchwil a gweithgareddau adeiladu cymuned i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae hi hefyd yn cynnwys Grŵp Cyswllt yr Ysgol Graddedigion a'r Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, sef y prif fforwm ar gyfer llais y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn y Brifysgol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Adran 2.2, nid oedd y staff na'r myfyrwyr yn deall hyn yn eglur. Er gwaethaf y problemau a nodwyd yn Adran 2.2, mae'r Ysgol Graddedigion wedi gweithio gyda Chymdeithas y Myfyrwyr yn ddiweddar i ddarparu ystafell gyffredin i'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar y campws ar sail adborth y myfyrwyr gan y grŵp cyswllt.

54 Siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol am yr hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth a dderbyniant gan yr Ysgol Graddedigion a, lle bo'n berthnasol, gan y Canolfannau Ymchwil Cysylltiol. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm adolygu fod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig oedd eisiau addysgu heb gael y cyfle i wneud hynny, ac awgrymwyd mai'r pandemig COVID-19 oedd ar fai am hynny o bosib. Fodd bynnag, roedd gan y myfyrwyr farn gymysg a disgwyliaid cymysg am hyn. Ar y cyfan, dywedodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig fod y Brifysgol wedi eu cefnogi nhw'n dda yn ystod y pandemig COVID-19 a bod dulliau ar-lein o oruchwylio a hyfforddi a chynnal arholiadau ar lafar wedi cael eu gweithredu'n dda ac wedi cael derbyniad da.

2.5 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

55 Dyrennir pob myfyriwr i Dîm Cymorth Myfyrwyr a drefnir, fesul cymhwyster, ar sail y gyfadran neu'r rhaglen, o fewn y Timau Recriwtio a Ffioedd Myfyrwyr sy'n gweithio ar draws y sefydliad. Y rhain ar y cyd yw'r Canolfannau Recriwtio a Chefnogi Myfyrwyr yn Lloegr, ac mae modelau cyfatebol o gymorth ar waith yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban. Mae'r Gwasanaethau Recriwtio a Chefnogi Myfyrwyr yn darparu cymorth wedi ei deilwra i'r wlad benodol, ac mae gan y myfyrwyr 'gysylltiad deuol' â'u gwasanaethau cymorth yn eu gwlad eu hunain ac â'u timau cymorth sy'n berthnasol i'r meysydd astudio er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn cymorth academaidd a chymorth penodol i'w gwlad sy'n briodol ac wedi ei bersonoli iddyn nhw.

56 Mae'r timau cymorth myfyrwyr yn cydweithio ag arweinwyr y rhaglenni a staff academaidd eraill, yn cynnwys darlithwyr cyswllt. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn y timau cymorth

myfyrwyr yn gweithredu mewn fframwaith Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad. Mae'r timau cymorth myfyrwyr yn rhoi cefnogaeth wedi ei phersonoli, sydd â ffocws ar y cwricwlwm, i'r myfyrwyr ar bob cam o'u taith i'w helpu i gyflawni eu nodau astudio personol. Yn ogystal, mae systemau Modelau Cefnogi Dysgwyr a Dysgu Integredig (MILLS) ar waith ar lefelau'r modiwlau a'r cymwysterau i roi cefnogaeth i fyfyrwyr. Mae cyfathrebu personol effeithiol gan y timau MILLS yn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol eu rhaglenni astudio. Yn ogystal, mae'r timau cymorth myfyrwyr yn defnyddio dadansoddeg data a modelau tebygolrwydd i ganfod myfyrwyr dan risg neu fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. Mae'r gwerthusiad a wnaed o'r gefnogaeth hon wedi helpu i fireinio'r dull ac mae'n dangos ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lwyddiant y myfyrwyr.

57 Mae'r Ganolfan Gymorth ddigidol yn system gymorth hunangyfeiriedig i fyfyrwyr sy'n eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth eang o wybodaeth, o bolisiau ffurfiol, cyngor am les personol, a chyfle i ddysgu sgiliau astudio a gyrfaol manwl. Mae'n gyfleuster ar-lein cynhwysfawr ac effeithiol a gafodd ei ddatblygu'n weithredol gyda Chymdeithas y Myfyrwyr i sicrhau bod y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad yn gyfredol a pherthnasol i'r myfyrwyr i gyd yn ddiethriad. Gwelwyd cynnydd o 40% yn y defnydd a wneir o'r Ganolfan Gymorth ers 2002, ac efallai mai'r rheswm am hynny yw'r ffaith bod y gwasanaethau digidol wedi eu cyfuno'n well gyda gweithgareddau, ymyriadau a chyfathrebiad y timau cymorth myfyrwyr. Caiff y ganolfan ei monitro'n ddyddiol ac mae hi'n hwyluso asesiad a gweithrediad unrhyw welliannau a awgrymwyd dan arweiniad y myfyrwyr. Mae'r ystadegau'n gadarnhaol ac maen nhw'n dangos bod y ganolfan wedi gweithredu ar 80,000 o sylwadau mewn adborth gan fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cyfraddau boddhad â'r tudalennau cynghori'n amrywio o 60% i 98%. Mae Cymdeithas y Myfyrwyr yn parhau i weithio â'r Brifysgol i ddatblygu'r system hon.

58 Cred y Brifysgol bod dechrau eu hastudiaethau ar lefel briodol yn hanfodol os yw myfyrwyr yn mynd i lwyddo, parhau ar eu cyrsiau a dangos cynnydd, ac mae'r modiwlau Mynediad yn gwneud gwaith pwysig i alluogi hynny. Er bod myfyrwyr yn y Brifysgol yn tueddu i fod yn hŷn na myfyrwyr llawn amser 'traddodiadol' mewn mannau eraill, mae oedran cyfartalog myfyrwyr newydd yn gostwng, ac mae bellach yn 28 oed. Cafodd y ddarpariaeth mynediad agored effeithiol ei llunio'n benodol i fyfyrwyr y Brifysgol a gall helpu myfyrwyr i ddarganfod rhagor am eu diddordebau ac o bosibl eu llwybrau cynnydd. Gall unrhyw fyfyrwr gofrestru ar fodiwl Mynediad ym misoedd Chwefror, Mai a Hydref bob blwyddyn. Fel arfer, mae modiwlau'n para am 30 wythnos ac yn gofyn am oddeutu naw awr o astudio bob wythnos. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y dull hyblyg ac effeithiol o ddarparu modiwlau Mynediad i baratoi amrywiaeth fawr o fyfyrwyr ar gyfer dulliau astudio addysg uwch.

59 Dywedodd rhai o'r myfyrwyr iau y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod eu profiad yn y Brifysgol yn union fel y byddent yn disgwyl iddo fod mewn unrhyw brifysgol arall, waeth beth oedd y dull darparu. Er bod llawer o fyfyrwyr yn cael eu haddysgu a'u hasesu'n gyfan gwbl ar-lein, drwy ddysgu o bell, roedden nhw'n cytuno bod yr adnoddau a'r gefnogaeth gan staff yn hynod o ddiddorol a phriodol o heriol. Wrth sôn am y cymorth academiaidd a bugeiliol a roddwyd iddynt yn ystod y pandemig, roedd eu sylwadau'n gadarnhaol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y dull effeithiol o gynnwys a chefnogi'r staff yn y gwaith o gyflawni cenhadaeth y Brifysgol, yn enwedig yn ystod y pandemig COVID-19, gan ddarparu sesiynau hyfforddi a seminarau ar-lein.

2.6 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg

60 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn technolegau ymchwil a datblygiad er mwyn darparu cynnwys academiaidd mewn rhith-amgylchedd dysgu ar-lein sy'n ennyn diddordeb ac sy'n fywiog a hygyrch. Mae'r rhith-amgylchedd dysgu'n rhoi'r wybodaeth, y deunyddiau dysgu a'r cymorth i'r myfyrwyr y maent eu hangen ar gyfer astudio modiwlau israddedig a modiwlau ôl-raddedig a addysgir. Mae'r rhaglenni wedi eu

dylunio'n effeithiol i drefnu cynlluniau craidd ar gyfer dysgu ac astudio. Mae tudalen hafan pob modiwl yn rhoi mynediad i ddeunyddiau dysgu, gweithgareddau, cwisiau, digwyddiadau, dyddiadau cau asesiadau, a sesiynau adolygu. Mae'r rhith-amgylchedd dysgu hefyd yn rhoi manylion am sesiynau tiwtora a gwybodaeth berthnasol am y modiwlau a'r cwricwlwm, gyda dolenni at y Gwasanaethau Llyfrgell, y Gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, gwefan Cymuned y Brifysgol Agored a'r Ganolfan Gymorth ddigidol.

61 Er bod cyflwyniad y myfyrwyr wedi nodi bod ansawdd y rhith-amgylchedd dysgu'n annigonol, gwael a hen ffasiwn, roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n fodlon, ac yn ymwybodol o gynlluniau'r Brifysgol i fuddsoddi'n sylweddol yn y maes hwn. Roedd y brif broblem a nodwyd yn ymwneud â chyfathrebu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n ffurfio eu grwpiau eu hunain ar y cyfryngau cymdeithasol ac sydd â rhith-amgylchedd dysgu ar wahân. O ganlyniad i hyn, nid yw rhai myfyrwyr yn gwybod yn llawn am yr holl gymorth sydd ar gael iddynt, megis y Ganolfan Gymorth ddigidol, ac mae hyn yn cyfrannu at yr argymhelliad sydd wedi ei nodi ym mharagraff 64.

62 Dywedodd rhai o'r myfyrwyr, yn enwedig y rhai oedd heb fod yn gofrestredig am fwy na tair blynedd, nad oes gan bob rhaglen drosglwyddiad clir o ddull dysgu cyfunol i astudio'n llwyr ar-lein (gwelwch baragraff 77). Roedden nhw'n dweud nad oedd rhai dulliau dysgu o bell mor rhyngweithiol â'r disgwyl a'u bod yn gofyn llawer o astudio annibynnol, sy'n gallu bod yn brofiad unig. Yn ogystal, dywedodd rhai o'r myfyrwyr bod y newid i raglenni sydd 100% ar-lein yn golygu na allent bellach gael gafael ar ddeunyddiau mewn print. I rai myfyrwyr, y rhaglenni ar-lein fyddai eu dewis ddull o ddysgu, yn enwedig os ydynt yn gweithio'n llawn amser yn ystod y dydd ac eisiau darllen llyfrau papur o amgylch eu horiau gwaith neu osgoi opsiynau argraffu drud.

63 Cafwyd derbyniad da i'r meddalwedd 'OU Study' ar gyfer cyfrifiaduron bwrdd gwaith neu ddyfeisiau symudol yn dilyn eu cyflwyniad yn 2020. Dywedodd rhai o'r myfyrwyr, yn enwedig y myfyrwyr sy'n gwneud Prentisiaethau Gradd, bod hwn yn adnodd rhagorol i'w helpu i gael gafael ar ddeunyddiau eu rhaglenni 24 awr y dydd a chynllunio eu hamser astudio.

64 Mae'r Brifysgol yn cydnabod manteision datblygu ei darpariaeth adnoddau dysgu ar-lein, sy'n arbennig o bwysig i fyfyrwyr y nodwyd eu bod yn wynebu tloedi digidol. Maen nhw hefyd yn cydnabod yr anawsterau wrth ddarparu gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i'r myfyrwyr sy'n wynebu tloedi digidol ac maen nhw'n gweithio gyda Chymdeithas y Myfyrwyr i wella'r ohebiaeth hon. Roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n gadarnhaol am y mynediad at y deunyddiau digidol a ddarperir ac roeddent yn canmol y Brifysgol am y cymorth safonol iawn y maent wedi ei dderbyn gan staff yn ystod y pandemig. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw, myfyrwyr oedd yn cynrychioli pob lefel a phob dull astudio, yn fodlon gyda'r adnoddau a ddarperir iddynt ar y rhith-amgylchedd dysgu ar hyn o bryd ac roeddent yn ymwybodol ac yn gadarnhaol am y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i wella'r ddarpariaeth. Cadarnhaodd y staff academiaidd a'r staff cymorth bod y datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys diweddariad y technolegau digidol, yn rhagorol ac yn hynod gefnogol yn ystod y pandemig. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu'r rhith-amgylchedd dysgu ymhellach er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch a chefnogi gwell profiad o ddysgu ac addysgu'n ddigidol.

2.7 Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

65 Nod y Brifysgol yw darparu addysg o bell o safon fyd-eang sy'n hyblyg i bobl ym mhedair gwlad y DU, yn Iwerddon a ledled y byd. Canfu'r tîm fod y Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a ddaeth yn gyfraith ar 1 Ebrill 2018. Mae Cynllun Cydymffurfio'r Brifysgol yn nodi ei bod wedi rhoi gwybodaeth ac arweiniad i'r staff i gyd i'w helpu i sicrhau fod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r safonau. Cadarnhaodd yr aelodau o staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw yr ymdeimlad cryf bod y staff i gyd yn gyfrifol am fyfyrwyr Cymraeg.

66 Mae Safonau'r Gymraeg a datblygiadau yn y maes hwn yn cael eu goruchwylio gan Gyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru, Rheolwr Cyfathrebiadau (sydd â chyfrifoldeb penodol am gydymffurfiaid â Safonau'r Gymraeg) a Grŵp Llywio Safonau'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwe mis ac yn adrodd ar eu cynnydd yn flynyddol. Cyhoeddwyd adroddiadau yn 2019 a 2020. Mae'r adroddiadau blynyddol yn dangos yn glir fod y Brifysgol wedi ei hymrwymo i gefnogi a hybu'r Gymraeg. Maen nhw'n nodi sut i wella eu dulliau er mwyn cydymffurfio'n fwy effeithiol â'r Safonau, ac yn nodi cyflawniadau ar sail tystiolaeth a meini prawf fel ffocws ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

67 Mae gan y Brifysgol wefan ddwyieithog benodol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, sianelau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaeth cymorth myfyrwyr sy'n cynnig cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r swyddfa yng Nghaerdydd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru yng Nghymru sydd eisiau sgwrsio â'r Brifysgol yn Gymraeg. Yn lle gwefan OpenLearn Cymru a oedd yn sefyll ar ei phen ei hun, sefydlwyd dau borth newydd ar OpenLearn, sef OpenLearn Cymru ac OpenLearn Wales. Mae porth Cymru wedi rhoi cyfle i'r Brifysgol ddod â holl gynnwys Cymraeg OpenLearn at ei gilydd, ac mae'n galluogi i'w ddefnyddwyr astudio ar ddyfeisiau symudol a llechi, yn ogystal â gwella'r canlyniadau chwilio ar gyfer cynnwys yn y Gymraeg.

68 Mae gan y Brifysgol fwy na 12,000 o fyfyrwyr ledled Cymru sy'n cael eu cefnogi gan 300 o diwtoriaid. Mae cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gellir gofyn am gyfieithiadau ac maen nhw'n cynnwys yr elfennau a addysgir a'r dulliau asesu. Cedwir rôl un o'r tiwtoriaid ymarfer ar gyfer y rhaglen Brentisiaeth Gradd a weinyddir yng Nghymru i siaradwr Cymraeg. Disgrifiodd y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw ddulliau priodol o gael gafael ag adnoddau dysgu ac addysgu yn y Gymraeg yn ogystal â'r opsiwn i wneud cais am ddeunyddiau ychwanegol wedi eu cyfieithu.

2.8 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

69 Mae dull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol, mae wedi ei hysbysu gan y myfyrwyr ac mae ganddo ffocws ar y myfyriwr. Mae'r tîm adolygu'n canmol y Brifysgol mewn dau faes (paragraffau 80 a 155) a darparodd y Brifysgol nifer o enghreifftiau eraill o welliant ar lefelau'r modiwlau a'r rhaglenni.

70 Mae'r Brifysgol wedi cymryd camau effeithiol i sicrhau bod y ddarpariaeth wedi ei haddasu ar gyfer anghenion ei phoblogaeth myfyrwyr gydag enghreifftiau dilys o'r ffordd y mae hyn yn trosi'n ymarferol ar gyfer dysgu o bell. Cadarnhaodd y staff a'r myfyrwyr bod lefelau uchel o gymorth ar gael iddynt yn ystod cyfnodau digynsail a bod y trosglwyddiad i'r trefniadau newydd wedi ei reoli'n dda i sicrhau cyn lleied ag y bod modd o amhariad ar eu hastudiaethau. Mae'r tîm adolygu wedi argymhell bod angen gwella dau faes i gefnogi'r drefn llais y myfyrwyr (paragraffau 45 a 46). Gyda'r enghreifftiau a roddwyd a'r sgwrsiau a gafodd y tîm adolygu gyda'r staff a'r myfyrwyr, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Brifysgol Agored dull effeithiol, systematig a hyblyg o wella profiad dysgu ei myfyrwyr.

3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

3.1 Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso

71 Mae'r Brifysgol Agored yn sefydliad a yrrir gan y genhadaeth "*i gyrraedd mwy o fyfyrwyr gyda dysgu sy'n gweddnewid bywydau i ateb eu hanghenion*", ac amrywiadau ar y datganiad hwn, a ddefnyddir gan staff mewn nifer o gyfarfodydd. Gweithredir y genhadaeth drwy Gynllun Strategol y Brifysgol a oedd yn cael ei adolygu ar adeg yr adolygiad. Mae'r cyfadrannau'n defnyddio'r strategaeth i hysbysu eu gweithredoedd ac i fod yn faen prawf drwy'r sefydliad cyfan i bedair gwlad y DU yn y gwaith a wneir ar draws y Brifysgol.

72 Ers ei hadolygiad diwethaf yn 2015, mae nifer y cyfadrannau wedi gostwng i bedair a gwnaethpwyd ymdrech ar y cyd i gynyddu aliniad strategol a chysondeb rhwng y cyfadrannau, ac ar draws pedair gwlad y DU. Mae graddfa o hyd o elfennau sy'n perthyn i'w cyd-destun yn y cyfadrannau sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau yn nulliau gwaith y gwahanol bynciau. Cydnabyddir bod lefel debyg o amrywiaeth briodol rhwng pedair gwlad y DU gan adlewyrchu'r gwahanol amgylcheddau gweithredu a'r gwahanol drefnau polisi. Cyflwynwyd yr amrywiaeth hon a reolir fel cryfder sy'n annog arfer gorau a ddatblygir mewn cyd-destun cenedlaethol, i gael ei werthuso a'i rannu lle bo'n berthnasol.

73 Cydnabyddir yn eang bod creu rôl y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) yn darparu gwell ffocws ar lwyddiant myfyrwyr a pherthynas y lwyddiant hwnnw â'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm. Trwy gyfuno unedau oedd ar wahân ynghynt o dan ymbarél y tîm DDA, gellir defnyddio gwybodaeth yn effeithiol bellach i gefnogi gwelliant yn y profiad dysgu. Mae Grŵp Cynghori'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith staff uwch pob un o'r cyfadrannau, yn hybu gweithio a rhannu arferion ar draws y brifysgol gyfan.

74 Mae'r ailstrwythuro a'r effaith a gafodd y pandemig COVID-19 wedi oedi'r gwaith o gynhyrchu rhai o'r dogfennau polisi a fydd yn tanategu'r ffocws cynyddol ar lwyddiant y myfyrwyr dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr). Er enghraifft, yn ôl y Dadansoddiad Hunanwerthuso nid yw Gweledigaeth a Chynllun Dysgu ac Addysgu a Strategaeth Academaidd y Brifysgol yn gwasanaethu anghenion y cyfadrannau ar hyn o bryd. Roedd y Tîm Cymorth Strategaeth Academaidd yn bwriadu cyflwyno datganiad arwain polisi drafft i gefnogi dysgu ac addysgu yn y cyfadrannau erbyn Tachwedd 2020, ond nid yw hwn wedi ei ysgrifennu eto. Mae'n briodol bod y ffocws cyfredol ar gefnogi'r dysgwyr a'r staff yn ystod y pandemig, ond mae dogfennau polisi o'r fath yn bwysig i gefnogi cysondeb y dull mewn sefydliad mor fawr ac mor amrywiol ei strwythur â'r Brifysgol Agored.

75 Trwy weithredu cynlluniau thematig a gweithredol ar lefelau'r Brifysgol a'r cyfadrannau, mae'r Brifysgol yn dangos bod ganddi ddulliau strategol effeithiol o gynllunio i'r dyfodol er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu.

3.2 Y dulliau o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu

76 Mae'r Brifysgol yn dangos bod ganddi ystod eang o brosesau effeithiol i ganfod unrhyw angen am newid ar wahanol lefelau. Canfuwyd newidiadau strategol - megis y symudiad strategol i ddulliau dysgu ac addysgu sy'n gwbl ddiigidol - ar lefel y rheolwyr uwch; ymddangosodd y gofyniad i newid llwybrau modiwlau o ddadansoddiad y data gan y tîm DDA; a gwelir a oes angen gwneud newidiadau gweithredol yn rhan o'r broses o gynlluniau gweithredu treigl.

77 Cafodd y llinell amser ar gyfer y symudiad strategol i ddulliau 'digidol yn gyntaf' o ddysgu ac addysgu ei effeithio gan y pandemig COVID-19 a bu'n rhaid newid yn gyflymach i'r ddarpariaeth ar-lein yn unig. Roedd y staff yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi'n dda yn y

symudiad cyflym hwn gan yr Athrofa Technoleg Addysg a'r tîm DDA, mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y cyfadrannau. Cafodd y newid cyflymach hwn yn y dulliau darparu gweithredol ei orfodi yn lle'r symudiad mwy graddol oedd wedi ei gynllunio o weithio wyneb yn wyneb gyda llyfrau papur. Nid oes gan y myfyrwyr i gyd ddealltwriaeth dda o resymeg y symudiad arfaethedig i ddulliau 'digidol yn gyntaf' o ddysgu ac addysgu. Cyn y pandemig, nodwedd y trosglwyddiad hwn oedd y byddai "pob disgyblaeth yn defnyddio cymysgedd gwahanol o bapur ac ar-lein", ond mae'r pandemig wedi arwain at fwy o unfurfiaeth mewn dulliau dysgu ac addysgu. Mae'r tîm yn **argymell** bod y Brifysgol yn cadarnhau ei bwriad i ddarparu dulliau digidol o addysgu yn y dyfodol a chyfathrebu'n glir pa adnoddau dysgu fydd ar gael i'r myfyrwyr presennol ac i ddarpar fyfyrwyr.

78 Cafodd y symudiad i 'ystafelloedd ar-lein', megis y rhith-amgylchedd dysgu, ei reoli a'i weithredu'n dda. Er gwaethaf yr effaith a gafodd y pandemig COVID-19 ar gyflymu'r gweithrediad, roedd y staff a'r myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi'n dda yn y trosglwyddiad i'r rhith-amgylchedd dysgu newydd. Mae'r Brifysgol yn darparu rhaglenni hyfforddiant byw estynedig, esboniadau ar fideo a chefnogaeth anghyfamser gyda phrosesau gwella sgiliau dilynol wrth i alluoedd newydd gael eu hychwanegu. Cafodd y prosiect gweithredu ei redeg a'i ddogfennu'n dda a chynhyrchwyd cofnod estynedig o'r gwersi a ddysgwyd er mwyn hwyluso dysgu sefydliadol.

79 Mae un enghraifft sy'n dangos gallu'r Brifysgol i adnabod ac ymateb i newid yn ymwneud â'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio ar lefel uwch o ddwyyster o ganlyniad i newidiadau demograffig ym mhoblogaeth myfyrwyr y Brifysgol a newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Gweithiodd y tîm DDA â'r cyfadrannau i wneud ymarferion cloddio data er mwyn canfod ffactorau sy'n gwneud myfyrwyr yn llwyddiannus wrth astudio ar lefel uwch o ddwyyster. Gan ddefnyddio dadansoddiad data o'r fath, mae'r cyfadrannau a'r tîm DDA wedi canfod cyfuniadau o fodiwlau sy'n fwy tebygol o lwyddo ac, felly, ddylanwadu ar gynllun rhaglenni a chyngor i fyfyrwyr. Mae hyn yn bwysig am nad oes gan y Brifysgol unrhyw raddau ar hyn o bryd sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer eu darparu'n llawn amser.

80 Mae'r symudiad o adolygu perfformiad y myfyrwyr a'r cwricwla'n flynyddol yng nghyfarfodydd y Byrddau Astudiaethau i ddefnyddio cynlluniau gweithredu treigl 'byw', yn dangos y defnydd sefydliadol cynyddol o ddata i fonitro ac ymateb mewn amser real. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y defnydd strategol, rhagweithiol ac effeithiol a wneir o ddata i wella'r dysgu a'r addysgu, cefnogi mynediad a thanategu'r gwaith o gyflawni cenhadaeth y Brifysgol er mwyn galluogi i'r myfyrwyr fod yn fwy llwyddiannus.

3.3 Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da

81 Am fod y Brifysgol Agored yn sefydliad mor fawr ac amrywiol yn ddaearyddol, mae canfod arferion da ac yna eu rhannu yn allweddol i wella ansawdd a llwyddiant cyson y myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod hyn ac wedi datblygu dulliau systematig o rannu arferion da'n effeithiol i ategu'r diwylliant o wella, a chadarnheir hyn gan y staff i gyd. Defnyddiwyd yr ymadrodd 'profi a dysgu' dro ar ôl tro mewn cyfarfodydd.

82 O fewn y Brifysgol, mae nifer o grwpiau sy'n cymryd rôl weithredol mewn lledaenu arferion da, megis Grŵp yr Ymarferwyr Gwella Ansawdd, y Grŵp Goruchwylio Gwelliant mewn Ansawdd, a'r tîm Polisi Cwricwlwm a Sicrhau Ansawdd (Polisi CSA). Er nad oedd cynifer o staff wedi cyfeirio at yr olaf o'r rhain yn ystod yr ymweliad adolygu, mae'n amlwg bod y grŵp hwn a grwpiau eraill yn canfod a rhannu arferion da'n effeithiol drwy brosesau adolygu ffurfiol.

83 Yn ei gyfarfodydd â'r staff yn ystod yr ymweliad, cefnogwyd yr honiad a wnaed yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso - bod y cysyniad o welliant drwy ysgolheictod yn yrrwr a dull allweddol ar gyfer hyrwyddo gwella ansawdd ac arloesi. Nodir y ffocws hwn ar welliant drwy ysgolheictod yn y Cynllun Ysgolheictod ac mae'n ymddangos ar ei fwyaf eglur yng ngweithrediad

ac effaith y Canolfannau Ysgolheictod. Cyfeiriwyd yn dda at y Canolfannau Ysgolheictod drwy gydol yr ymweliad adolygu yng nghyd-destun rhannu arferion da.

84 Mae datblygiad y Canolfannau Ysgolheictod yn enghraifft o ganfod a rhannu arferion da. Deilliodd y rhain o'r Gyfadran Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg a chawsent eu nodi fel arferion da cyn eu cyflwyno ar draws y cyfadrannau i gyd. Trwy gynlluniau ysgolheictod yn y cyfadrannau, a blogiau, gweminarau, ysgoloriaethau a ariennir, cynhadledd flynyddol, a dulliau eraill, mae'r Canolfannau Ysgolheictod yn meithrin diwylliant o arloesi a rhannu ym mhob cyfadran. Hyrwyddir rhannu arferion gorau ar draws y cyfadrannau drwy gyfnewid ysgoloriaethau a chefnogir hyn gan yr Athrofa Technoleg Addysg a'r tîm DDA.

85 Mae'r tîm DDA yn symud i ffwrdd oddi wrth ddadansoddiad wedi ei deilwra o ddata ar gais cyfadrannau a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), i sefyllfa lle mae'r data ar gael yn rhwydd drwy ddangosfyrddau. Yn gynyddol, mae'r tîm DDA yn cloddio data am berfformiad y myfyrwyr yn rhagweithiol ac yna'n croesgyfeirio hwn yn erbyn y cwricwlwm, gan chwilio am 'rwystrau, tagfeydd a dangosyddion llwyddiant'. Mae'r esblygiad hwn yn parhau wrth i ddulliau 'data mawr' gael eu datblygu er mwyn caniatáu dysgu peiriannol a dadansoddeg amser real i ganfod beth sy'n gweithio, a beth nad yw'n gweithio. Roedd hi'n amlwg bod y tîm DDA a'r Athrofa Technoleg Addysg wedi datblygu lefel ddigonol o ymddiriedaeth a pharch i fod yn hynod o effeithiol o ran helpu i ganfod a rhannu arferion da.

3.4 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw

86 Mae'r Brifysgol wedi datblygu amrywiaeth eang o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol o ymgysylltu, datblygu a chefnogi corff mawr o staff sydd wedi ei gwasgaru'n eang. Mae'r gwaith o fonitro gofynion datblygiad proffesiynol yn ffurfiol yn digwydd drwy broses Datblygiad Gyfaol a Gwerthusiad Staff flynyddol i'r staff i gyd a gyda darlithwyr cyswllt yn gwneud yr un broses bob dwy flynedd. Newidiwyd y broses werthuso hon yn 2020 mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

87 Mae'r staff yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol bod amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael iddynt ac maen nhw'n gwneud defnydd ohonynt. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, ysgoloriaethau a ariennir, hyfforddiant technegol ac addysgol, ac amrywiaeth o weminarau a gynhelir yn gydamserol ac yn anghydamserol. Hefyd, siaradodd nifer o aelodau'r staff yn gadarnhaol am bartneriaethau cyfeillio anffurfiol a hynod effeithiol â staff sy'n gweithio mewn meysydd academiaidd eraill neu wasanaethau cymorth proffesiynol eraill.

88 Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun cymrodoriaeth 'APPLAUD' sydd wedi ei achredu gan Advance HE. Mae hyn yn rhoi meincnod i'r Brifysgol ar gyfer ymarfer myfyriol y gellir ei ddefnyddio ymhob un o bedair gwlad y DU. Cadarnhawyd nad oes unrhyw dargedau absoliwt nag ymrwymadau cytundebol i staff academiaidd a darlithwyr cyswllt mewn perthynas â Chymrodoriaethau, ond bod y cyfadrannau'n ceisio cynyddu'r ganran o un flwyddyn i'r nesaf. Cadarnhawyd ymhellach fod y cynllun hwn ar gael i staff y gwasanaethau proffesiynol yn ogystal â'r staff academiaidd.

89 Yn ystod y broses adolygu, rhoddwyd gwybod i'r tîm bod y trosglwyddiad cyflym i ddarpariaeth wedi ei gyfyngu'n gwbl ddigidol (a oedd yn angenrheidiol oherwydd y pandemig COVID-19) wedi cynyddu llwyth gwaith y staff. Er credyd i'r staff, roedd y myfyrwyr i gyd yn canmol ymdrechion y staff i'w chefnogi ac am fynd 'gam ymhellach na'r gofyn'. Cydnabu'r myfyrwyr a'r rheolwyr bod staff academiaidd yn arbennig, wedi eu 'hymestyn gan yr amgylchedd gweithredu cyfredol oedd yn golygu bod darlithwyr a darlithwyr cyswllt yn gweithio rhwng 110% a 130% o'r amser gwaith sydd yn eu contract, yn y drefn honno, ar hyn o bryd.

90 Nid yw'r ffigurau am y llwyth gwaith sydd wedi eu nodi yn y paragraff uchod yn ymddangos yn Arolwg y Baromedr Staff yn hydref 2020 ac nid oedd yr arolwg yn ymchwilio

llwyth gwaith yn benodol. Dangosodd y Baromedr bod y staff yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i wneud eu rolau o dan yr amodau a orfodwyd gan y pandemig gydag arwyddion bod rhai newidiadau yn y trefnau gweithio'n gadarnhaol ac y gellid ystyried eu cadw o bosib ar ôl y pandemig COVID-19. Cymeradwywyd y contract newydd i ddarlithwyr cyswllt gan y Brifysgol yn 2018 ac mae wedi cael ei weithredu'n araf ers hynny. Ar adeg yr ymweliad adolygu, disgwyliid y byddai'r holl ddarlithwyr cyswllt ar y contract newydd erbyn Hydref 2021. O ystyried y rôl hanfodol y mae'r staff hyn yn ei chwarae yn narpariaeth cwricwlwm y Brifysgol, roedd llawer yn eu hystyried o bwysigrwydd allweddol.

3.5 Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu

91 Cafodd un newid tactegol a thri newid strategol eu dogfennu yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r dystiolaeth ategol, a chawsent eu trafod gyda staff a myfyrwyr yn ystod yr ymweliad adolygu. Gweithredwyd y symudiad tactegol heb ei gynllunio i ddulliau darparu digidol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 mewn ffordd effeithiol iawn. Roedd staff, yn cynnwys y rheiny yn sefydliadau partner y Brifysgol, yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi'n dda, yn arbennig gan yr Athrofa Technoleg Addysg. Gwelwyd tystiolaeth o effeithiolrwydd y cymorth a ddarparwyd yn yr hyn a ddywedodd y myfyrwyr a gadarnhaodd bod y trosglwyddiad a'r ddarpariaeth ddilynol o safon uchel unwaith y datryswyd y problemau cychwynnol.

92 O'r tri newid strategol - gweithrediad rhith-amgylchedd dysgu newydd, y ffaith bod data i gefnogi gweithredoedd yn fwyfwy canolog a hollbresennol, a'r symudiad arfaethedig i ddulliau digidol o ddysgu ac addysgu - dim ond yr olaf o'r rhain ddangosodd unrhyw arwyddion o anawsterau wrth gael ei weithredu. Canlyniad hynny oedd bod y tîm wedi gwneud yr argymhelliad a amlinellir ym mharagraff 77.

93 I grynhoi, er gwaethaf ei faint, ei gymhlethdod a'i wasgariad daearyddol, mae'r Brifysgol yn gweithredu ei strategaethau sefydliadol yn effeithiol. Mae rhai enghreifftiau da o weithrediad effeithiol y gwelliant mewn dysgu ac addysgu. Yr her barhaus yw sicrhau eu bod yn parhau i gael eu gweithredu'n gyson a bod eu heffaith yn cael ei werthuso.

4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd

4.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

94 Mae'r Brifysgol yn cynnwys pob lefel o'i sefydliad yn y gwaith o reoli ansawdd, gan ddangos y llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb yn glir a hwyluso dull cyson ar draws pedair gwlad y DU. Mae'r Pwyllgor LIAA yn arwain y gwaith o oruchwylio'r rheolaeth ar ansawdd mewn perthynas â modiwlau a rhaglenni a addysgir, ac mae'n cyflwyno adroddiad blynyddol cynhwysfawr i'r Senedd a'r Cyngor sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn ymwneud â phob agwedd o'i waith, gan gyfateb â gofynion y gwledydd unigol. Mae mentrau hyfforddi a chefnogi'n helpu i sicrhau bod gan aelodau lleyg y Cyngor ddealltwriaeth dda o brosesau ansawdd.

95 Mae ansawdd wedi ei sicrhau ar lefel y cyfadrannau drwy'r pwyllgorau addysgu sydd â chyfrifoldeb strategol am ddarpariaeth y rhaglenni ac ansawdd profiad y myfyrwyr. Cânt eu cefnogi ar lefel weithredol gan Fyrddau Astudiaethau. Mae'r Panel Portffolio Cwricwla, a sefydlwyd yn 2019, yn canolbwyntio ar ddull a ddefnyddir drwy'r brifysgol gyfan o ddatblygu cwricwla'n strategol. O ran sicrhau ansawdd, mae hyn wedi galluogi fwyfwy ddull o arwain sydd wedi ei ddogfen ar draws pedair gwlad y DU yn unol â datblygiadau strategol ar lefel y sefydliad. Mae gan y pwyllgorau allweddol sydd â chyfrifoldeb am ansawdd gynrychiolaeth myfyrwyr briodol.

96 Mae tystiolaeth o aliniad y Brifysgol â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU a ddiwygiwyd yn 2018 drwy ddogfen fapio fanwl ganolog. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan y Pwyllgor LIAA ym mis Medi 2020, ochr yn ochr â dogfen arall sy'n mapio yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), a bwriedir adolygu a diweddarau'r ddwy ddogfen yn flynyddol.

97 Mae proses gadarn a chynhwysfawr o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni a modiwlau, o'r enw 'proses y camau porth', wedi bod yn weithredol ers 2005. Mae ei chamau unigol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae adolygiad llawn wedi dechrau'n ddiweddar yng nghyd-destun Amnewid Systemau Craidd arfaethedig. Mae gwaith tîm ac allanoldeb yn ddwy nodwedd bwysig o'r broses o ddatblygu modiwlau drwy gyfranogaeth unedau proffesiynol ac unedau academiaidd, cynghorwyr cyflogadwyedd, lle bo'n berthnasol, a chynghorwyr allanol. Sicrheir llais y myfyrwyr drwy Banel Myfyrwyr Cynllun y Cwricwlwm sydd wedi eu cydgyssylltu gan y Tîm Cynllunio Dysgu.

98 Un o nodweddion allweddol dull y Brifysgol o adolygu rhaglenni yw'r broses Monitro a Gwella Ansawdd (MGA) flynyddol a darperir canllawiau defnyddiol i'r staff am hon drwy wefan benodol y broses MGA. Mae'r broses yn cefnogi'r gwaith o wella profiad y myfyrwyr a lledaenu arferion da drwy lunio cynlluniau gweithredu treigl, fel y disgrifiwyd ym mharagraff 76. Mae tystiolaeth ystadegol sy'n canolbwyntio ar berfformiad yn chwarae rôl arwyddocaol yn adroddiadau blynyddol y broses MGA a gyflwynir gan Fyrddau Astudiaethau unigol i grŵp o ddau adolygwr sy'n gymheiriaid diduedd. Mae'r trafodaethau'n fanwl ac yn eang, ac yn amlygu'r arferion da a'r meysydd sydd angen eu gwella. Galluogir tryloywder a chydaddoldeb ym mhrofiad y myfyrwyr drwy i ganlyniadau gael eu dosbarthu i'r unedau a'r pwyllgorau perthnasol. Mae cyfranogaeth y myfyrwyr fel arsylwyr yn y broses MGA ers 2019 yn ychwanegiad a groesewir sy'n cryfhau cyfranogaeth y myfyriwr mewn prosesau sicrhau ansawdd.

99 Mae adolygiadau yn dilyn y lansiad ac adolygiadau cylch bywyd bob pedair blynedd yn brosesau craffu ychwanegol gwerthfawr sy'n sicrhau bod modiwlau'n addas i'w dibenion, ac mae tystiolaeth o'r broses MGA yn rhan werthfawr o'r gwerthusiadau hyn.

100 Mae Adolygiadau Cyfnodol o Ansawdd yn digwydd i bob rhaglen ar gylch o chwe blynedd ac adroddir y canlyniadau i'r Pwyllgor LIAA. Mae gwefan bwrsasol yn darparu cymorth defnyddiol i Fyrddau Astudiaethau, sy'n gorfod cyflwyno dogfen hunanwerthusiad fanwl.

Mae'r timau adolygu'n cynnwys adolygwr hyfforddedig sy'n fyfyrwr, ac adolygwr allanol. Mae nifer yr adolygwyr sy'n fyfyrwr yn siomedig o fach ar hyn o bryd, ond mae nifer o ymryiadau ymarferol yn digwydd i gefnogi mwy o gyfranogaeth gan y myfyrwr. Llunnir cynlluniau gweithredu ar sail yr adolygiadau hyn, ac mae pwyllgorau addysgu'r cyfadrannau a'r Pwyllgor LIAA yn cymeradwyo diweddariadau am eu cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu ar lefel y sefydliad. Adolygwyd dull yr Adolygiad Cyfnodol o Ansawdd yn drwyadl yn 2020, ac mae gwaith ar droed i weithredu'r newidiadau hynny y cytunwyd arnynt mewn camau, gyda ffocws ar wella ansawdd yn barhaus, sicrhau mwy o gyfranogaeth gan fyfyrwr a chael mwy o aliniad â'r broses MGA.

4.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd

101 Cedwir Fframwaith Cymwysterau'r Brifysgol gan y tîm Polisi CSA, caiff ei adolygu'n flynyddol a bydd angen i unrhyw ychwanegiadau gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Cymwysterau ac Asesiadau a'r Senedd. Mae'r ymlyniad â Fframwaith o Lefelau'r Brifysgol yn cael ei wirio drwy 'broseu y camau porth'. Mae rheoliadau academaidd y Brifysgol yn gynhwysfawr a chânt hwythau hefyd eu hadolygu'n flynyddol. Mae system gadarn o broseu a phanelau canolog, fel y Panel Cymeradwyo Canlyniadau Modiwlau a Dosbarthu Cymwysterau, yn sicrhau agwedd gyson tuag at gyrhaeddiad y myfyrwr a dyfarnu cymwysterau academaidd. Cydnabyddir dysgu blaenorol drwy nifer o lwybrau sydd wedi eu hamlinellu yn y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol, a chyflwynir adroddiad manwl sy'n cynnwys gwybodaeth ystadegol allweddol i'r Pwyllgor Cymwysterau ac Asesiadau bob blwyddyn.

102 Mae'r Polisi Asesu'n disgrifio'r fframweithiau asesu, ac mae Llawlyfr Asesu a Chod Ymarfer ar gyfer Asesu Myfyrwr sy'n hawdd eu defnyddio ar gael i'r myfyrwr ar y wefan 'Polisiâu a Rheoliadau Myfyrwr'. Caiff myfyrwr eu cefnogi hefyd o ran derbyn arweiniad am asesiad gan eu cyfadrannau perthnasol. Mae'r cwrs 'Developing good academic practice' sydd ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan OpenLearn, yn nodwedd gefnogi gadarnhaol. Mae'r Polisi Ymddygiad Academaidd yn nodi'n glir ac yn gynhwysfawr yr hyn y mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl gan ei myfyrwr mewn perthynas ag arferion academaidd cadarn.

103 Mae arweiniad a chymorth mewn perthynas â phob agwedd o'r gwaith asesu a monitro'n cael eu cyhoeddi i farcwyr a dywedodd rhai o'r darlithwyr cyswllt eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Cadarnhaodd staff academaidd fod y Polisi Asesu Elfen Sengl wedi symleiddio'r prosesau i'r staff a'r myfyrwr ac roedden nhw wedi croesawu cyflwyniad y Polisi Strategol Asesu Modiwlau a Chymwysterau ehangach diwygiedig hyn ddiweddar.

104 Mae safonau'n cael eu gosod a'u hadolygu yn rhan o'r prosesau cymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni sydd wedi eu hamlinellu yn adran 4.1, gyda chynghorwyr allanol yn hysbysu prosesau ac yn darparu beirniadaethau annibynnol pwysig. Hefyd, mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynnal safonau academaidd ar draws yr holl raglenni ac yn sicrhau bod prosesau ac arferion cyson yn cael eu gweithredu, yn unol â normau'r sector. Mae'r Byrddau Arholi a Dyfarnu Clwstwr yn ymateb i'r adroddiadau a anfonir atynt. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael ar y wefan i'r myfyrwr hefyd, ac mae'r Pwyllgor Cymwysterau ac Asesiadau'n derbyn crynodeb o adroddiadau sy'n nodi materion academaidd a godir gan arholwyr allanol ac unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ymateb iddynt. Mae arweiniad ar gael i gefnogi arholwyr allanol o'r cyfnod cynefino hyd ddiwedd eu tymor; ac adolygir yn barhaus sut i fynd i'r afael orau â phroblemau generig a godir gan arholwyr allanol.

105 Mae cwynion ac apeliadau'n derbyn sylw gan Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwr benodol. Mae'r Drefn Gwyno ac Apelio ar gyfer Myfyrwr yn ganllaw sy'n hawdd ei ddefnyddio ac mae'n diffinio'r gwahanol fathau o gwynion yn glir, yn cynnwys yr amserlenni. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n ymwneud â chwynion ac apeliadau.

Yn ogystal ag awgrymu unrhyw welliannau y gallai'r adran neu'r gyfadran berthnasol eu gwneud, mae gan Swyddfa Gwaith Achos y Myfyrwyr rôl fonitro bwysig mewn perthynas â chwynion ffurfiol ar gam tri neu'r cwynion a gadarnheir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch. Mae'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr yn derbyn adroddiad blynyddol sy'n nodi tueddiadau yn y nifer o gwynion ac apeliadau, a'u canlyniadau. Yn 2018-19, gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion a'r apeliadau o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, ac nid oes unrhyw newid arwyddocaol yn y nifer o gwynion, y gwnaeth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch adolygiad ar eu cyfer, a oedd oddeutu 40 y flwyddyn. Lledaenir y gwersi a ddysgir o gwynion a gadarnheir ar draws y Brifysgol drwy adroddiadau gwella ansawdd er mwyn helpu i sicrhau nad yw myfyrwyr eraill yn profi problemau tebyg.

106 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae proses gwyno ar wahân ar gael ar gyfer problemau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Dywedwyd wrth y tîm adolygu nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion o'r fath.

4.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

107 Mae'r tîm Polisi CSA yn monitro unrhyw newidiadau a wneir i'r fframweithiau ansawdd allanol ac yn cynnig cyngor a chymorth yn ymwneud â materion rheoliadol i'r cyfadrannau. Mae aliniad â gofynion rheoleiddiol ar gyfer gwlad benodol yn ystyriaeth allweddol. Anogir y staff yn frwd i gymryd rolau arholwyr allanol a rolau allanol eraill yn ymwneud ag ansawdd.

108 Mae'r tîm Polisi CSA yn cadw cofnod o bob corff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (corff PSRB) sy'n cymeradwyo neu'n achredu rhaglenni'r Brifysgol, ac mae'n cyflwyno adroddiad ochr yn ochr â'r cofnod i'r Pwyllgor LIAA bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb defnyddiol o bob achrediad a roddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn nodi unrhyw ganmoliaethau neu argymhellion. Mae Canllaw Rheoli'r Cwricwlwm hefyd yn rhoi gwybodaeth gryno i aelodau o'r staff sy'n bwriadu gwneud cais am achrediad i gorff allanol. Dan arweiniad y tîm Polisi CSA, mae gwaith yn mynd rhagddo i hwyluso gweithio ar draws y cyfadrannau ar faterion yn ymwneud ag achrediad gan gyrrff PSRB drwy sefydlu gwefan SharePoint a Chymuned Ymarfer. Yn dilyn y cyfuniad llwyddiannus diweddar o Adolygiadau Cyfnodol o Ansawdd gyda digwyddiadau achredu a gynhelir gan gyrrff PSRB, mae'r Brifysgol wrthi'n ystyried datblygu'r dull adolygu hwn ymhellach drwy fyrhau'r cylch adolygu, lle bo'n berthnasol, er mwyn galluogi aliniad rheolaidd Adolygiadau Cyfnodol o Ansawdd ac adolygiadau gan gyrrff PSRB.

109 Mae'r Brifysgol Agored wedi ei hachredu gan Middle States Commission on Higher Education (MSCHE) yn yr UDA. Mae'r achrediad hwn yn cefnogi cenhadaeth y Brifysgol drwy'r byd i gyd a chafodd ei hadnewyddu am wyth mlynedd arall yn 2020. Cyflwynir adroddiad data blynyddol i'r MSCHE a bydd adolygiad canol tymor yn digwydd yn 2024.

4.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

110 Yn ei Hadolygiad Addysg Uwch yn 2015, derbyniodd y Brifysgol bedair beirniadaeth ar wahân 'yn cyflawni disgwyliadau'r DU' gan QAA am y meysydd canlynol: y modd y gosodir ac y cynhelir safonau academiaidd, ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, y wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, a'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu.

111 Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Addysg Uwch gan y Pwyllgor LIAA ym mis Chwefror 2016. Cwblhawyd tair o'r pum nodwedd o arfer da a nodwyd yn yr adolygiad erbyn Hydref 2017, a chyflwynwyd yr Adroddiad am Gynnydd Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Addysg Uwch i'r Pwyllgor LIAA. Roedd y camau gweithredu a gwblhawyd yn cynnwys diweddarau 'prosesau'r camau porth' i adlewyrchu'r strwythurau llywodraethu a rheoli newydd, cefnogaeth ychwanegol i ymholwyr ac ymgeiswyr, a ffocws cynyddol ar lwyddiant myfyrwyr drwy fentrau'r

cyfadrannau a'r sefydliad. Hefyd, roedd camau gweithredu cynhwysfawr wedi eu cymryd erbyn hyn mewn ymateb i bob un o'r tri argymhelliad, gan gynnwys drwy ddatblygu dull cydlynol o ddarparu gwybodaeth am y prosesau derbyn i'r myfyrwyr, cyhoeddi disgrifwyr llawn y modiwlau, ac adolygu'r prosesau o wirio'r wybodaeth y mae'r darparwr a ddilysir yn ei chynhyrchu i'w myfyrwyr.

112 Cwblhawyd y camau gweithredu mewn ymateb i chwech o'r saith cadarnhad erbyn 2017 hefyd, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: adolygu strwythurau llywodraethu'r sefydliad a'i chfydrannau; cyfathrebu â'r myfyrwyr yn well, yn enwedig mewn perthynas â chwynion ac apelïadau a rheoliadau asesu; a datblygu mentrau llais myfyrwyr ychwanegol, e.e. fforymau ymgynghori myfyrwyr y Byrddau Astudiaethau ar faterion megis cynllunio'r cwricwlwm.

113 Ym mis Mai 2019, cadarnhawyd i'r Pwyllgor LIAA y byddai'r cam gweithredu oedd yn ymwneud â'r cadarnhad oedd heb ei weithredu, sef cynnwys adroddiadau arholwyr allanol ar y wefan, yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref/Tachwedd 2019. Roedd rôl yr arholwr allanol ar Fyrddau Cwblhad a Dyfarnu, sef un o'r meysydd o arfer da sydd heb eu gweithredu, wedi eu gwella drwy well mynediad ar-lein i arholwyr allanol at ddeunyddiau'r Byrddau Arholi a Dyfarnu Clwstwr ac at gyfleoedd i wella deialog rhwng arholwyr allanol a staff y Byrddau Astudiaethau. Cafodd y broses o gyflwyno print prif ffrwd awtomatig i bob modiwl, sef y maes arall o arfer da, ei chynnwys yn Strategaeth Addasu Dysgu'r Myfyrwyr ym mis Ionawr 2020. Clywodd y tîm adolygu am farn y Brifysgol bod cynnydd da i'w weld yn yr holl gamau gweithredu yn dilyn yr adolygiad blaenorol, yn ystod cyfnod o newid cenedlaethol sylweddol ac ail strwythuro mewnol.

4.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

114 Sefydlwyd y tîm Dadansoddi Data Myfyrwyr (DDA) ym misoedd olaf 2018 i gefnogi rhanddeiliaid allweddol y Brifysgol drwy alluogi i fwy o benderfyniadau gael eu gwneud, ar sail tystiolaeth, drwy ddata a dadansoddeg. Mae'r tîm hwn yn rhoi gwybodaeth i Gyngor y Brifysgol i gefnogi monitro llwyddiant y myfyrwyr a gyrru gwelliant strategol mewn meysydd megis cadwraeth, cynnydd a chyrhaeddiad y myfyrwyr.

115 Mae'r tîm DDA yn gweithio'n arbennig o agos â swyddfa'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), y cyfadrannau a'r unedau proffesiynol ar faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau, a phrofiad y myfyrwyr. Er enghraifft, mae'r tîm yn cefnogi'r broses MGA drwy ddarparu dangosfyrddau data perthnasol sy'n canolbwyntio ar feysydd megis cadwraeth, cyflwyniad aseiniadau a chyrhaeddiad, a boddhad cyffredinol. Mae'r staff yn croesawu datblygiad dull integredig o reoli a dadansoddi data ar lefel y sefydliad ac mae galluoedd newydd yn dod ar-lein yn rheolaidd. Dywedodd y staff bod y data amser-real rheolaidd a ddarparwyd gan y tîm DDA yn eu galluogi i werthuso tueddiadau a dadansoddi themâu ehangach yn ogystal ag adnabod unrhyw faterion ar bwyntiau allweddol ar daith astudio'r myfyrwyr. Mae dangosyddion rhybuddio cynnar yn helpu darlithwyr cyswllt i ymateb i anghenion unigolion drwy ddarparu cymorth priodol wedi ei bersonoli.

116 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rhai heriau ar ôl o hyd rhwng y data a ddarparwyd a sefydliad y cysylltiadau rhwng y gweithgareddau ar lefel strategol ac ar lefelau'r Byrddau Astudiaethau a thimau'r cymwysterau a'r modiwlau. Mae'n rhaid cael data cadarn sy'n berthnasol i bawb ac, i gefnogi hyn, mae deialog parhaus yn digwydd rhwng y tîm DDA a'r staff ynghyd â hyfforddiant data rheolaidd i gadeiryddion y modiwlau a staff allweddol eraill. Mae'r gyfres Adroddiadau Gwella Ansawdd a'r seminarau gwella ansawdd a gynhelir yn rheolaidd yn ystod amser cinio'n fentrau pwysig sy'n tynnu sylw at arferion da a rôl arwyddocaol defnyddio data i ddadansoddi a gwella'r canlyniadau a hysbysu'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm.

117 Cefnogir y cyfadrannau gan dîm o 'geidwaid data' wedi eu seilio yn yr Athrofa Technoleg Addysg sydd â'u ffocws ar wella ansawdd ac arloesi. Mae ganddynt rôl hwyluso bwysig, ac maent yn helpu i sicrhau bod data'r myfyrwyr yn berthnasol i anghenion y staff a bod pawb yn ei ddeall yn glir. Mae'r unigolion hyn hefyd yn helpu i ledaenu arferion da ar draws y Brifysgol, yn enwedig mewn perthynas â dulliau dysgu ac addysgu ar-lein ac aliniad ag amcanion strategol y Brifysgol. Gan weithio'n agos â'r Canolfannau Ysgolheictod, maent yn cynhyrchu adroddiadau dadansoddol ar sail tystiolaeth sy'n cefnogi pob agwedd o'r broses ansawdd.

4.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu

118 Mae canlyniadau Adolygiadau Cyfnodol o Ansawdd mewnol ac Adolygiadau Sefydliadol allanol blaenorol gan QAA yn dangos bod gan y Brifysgol brosesau sicrhau ansawdd effeithiol. Mae canlyniadau'r prosesau hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu, monitro'r gweithrediad, a mesur yr effaith a geir.

119 Ers yr Adolygiad Gwella Ansawdd diwethaf, mae rhai o'r prosesau hyn, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r cyfadrannau, wedi dechrau symud o adolygiad blynyddol neu gyfnodol i ddull sy'n fwy amser-real gyda datblygiad dangosfyrddau a chynlluniau gweithredu treigl. Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos bod newidiadau a wnaed o ganlyniad i gynlluniau gweithredu treigl y Byrddau Astudiaethau wedi peri gwelliant uniongyrchol yng nghanlyniadau'r myfyrwyr.

120 Elfen sydd wedi ei hawgrymu yn y dogfennau a ddarparwyd cyn yr ymweliad, ac sy'n cael ei dangos wedyn mewn trafodaeth â staff a myfyrwyr y Brifysgol, yw'r buddsoddiad sydd wedi ei ymwreiddio'n gryf yng nghenhadaeth ehangu mynediad y Brifysgol. Mae hefyd yn amlwg bod gan y staff ethos cryf o welliant mewn perthynas â'r profiad dysgu a bod y Brifysgol yn darparu llawer o gyfleoedd a chefnogaeth sylweddol i wneud hyn. Mae hyn cyn bwysiced â, os nad yn bwysicach na'r prosesau sicrhau ansawdd a gwella safonau sydd wedi eu rheoli'n dda mewn ehangu mynediad a hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr.

121 Wrth ystyried prifysgol mor fawr sydd wedi ei gwasgaru mor eang yn ddaearyddol, mae'n anodd canfod pa mor gyson y mae'r holl agweddau o ansawdd yn cael eu defnyddio. Ond, mae'r dystiolaeth ddogfennol eang a ddarparwyd, gyda chefnogaeth y drafodaeth a ddigwyddodd yn ystod yr ymweliad adolygu, yn dangos bod gan y Brifysgol brosesau ansawdd effeithiol ac ethos wedi ymwreiddio sy'n hybu gwelliant mewn dysgu ac addysgu.

4.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd

122 Mae adrannau 4.2 a 4.3 yn crynhoi'r rheoliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i osod a chynnal safonau ei dyfarniadau. Un o nodweddion pwysig ei dulliau cynhwysfawr yw allanoldeb, ac mae cynrychiolaeth staff academiaidd ac ymarferwyr yn agwedd ddiuedd bwysig o brosesau dilysu ac Adolygiadau Cyfnodol o Ansawdd. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn gadarnhaol yn eu cefnogaeth o safonau academiaidd ac ymgysylltiad ac, yn yr un modd, mae dogfennau achrediad y cyrff PSRB yn dangos bod y Brifysgol yn sicrhau'n effeithiol bod safonau academiaidd yn cael eu cynnal.

123 Mae codi'r marc trothwy ôl-raddedig o 40% i 50% yn 2019, heb newid y safon sy'n ofynnol i basio, wedi gwneud y Brifysgol yn gyfatebol â sefydliadau addysg uwch eraill. Mae dull symlach ac ehangach wedi ei ddatblygu hefyd o asesu modiwlau a chymwysterau. Er bod y cyfraddau cyflawniad wedi gwella ers cyflwyno'r Polisi Asesu Eifen Sengl, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod hi'n anodd gwahanu effaith y polisi hwn oddi wrth ffactorau eraill, felly mae'r gwerthuso'n dal i fynd rhagddo. Hefyd, mae adolygiad yn mynd rhagddo o algorithm ar gyfer dosbarthu graddau israddedig i sicrhau bod y dosbarthiadau graddau, sydd heb eu hadolygu ers 2001, yn cynrychioli cyflawniad y myfyrwyr yn deg, yn unol â normau'r sector. Mae'r Datganiad o Safonau Graddau, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020, yn dangos lefel uchel

o gysondeb dros yr wyth mlynedd diwethaf ac mae'n dangos nad yw chwyddiant mewn graddau wedi bod yn broblem.

124 Daeth y tîm i'r casgliad bod y safonau academaidd y mae'r Brifysgol yn eu gosod a'u cynnal ar gyfer cyrhaeddiad myfyrwyr yn gadarn ac yn gyson â'r meincnodau perthnasol a'r fframweithiau dyfarniadau perthnasol ar lefel genedlaethol. Cymerwyd camau gweithredu priodol i sicrhau nad yw'r pandemig COVID-19 wedi amharu ar y safonau academaidd mewn unrhyw ffordd.

4.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

125 Mae adrannau 4.1 a 4.5 yn crynhoi'r dulliau cynhwysfawr y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i fonitro ac adolygu ansawdd ei darpariaeth. Mae heriau'n parhau ac yn cael eu cydnabod gan y Brifysgol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau gwell aliniad â mesuriadau o lwyddiant y myfyrwyr drwy berchnogaeth glir ac atebolrwydd am argymhellion a champau gweithredu ar lefel y sefydliad a nodir yn adroddiadau'r prosesau MGA ac Adolygiad Cyfnodol o Ansawdd. Mae sefydliad diweddar Grŵp yr Ymarferwyr Gwella Ansawdd, Grŵp Sicrhau Ansawdd/Lledaenu Llwyddiant Myfyrwyr, a Grŵp Goruchwylio Gwelliant mewn Ansawdd yn amcanu i sicrhau dull mwy cyd-drefnus a chyson o wella ansawdd ar lefel y sefydliad sy'n canolbwyntio ar yrwyr gweithrediadol a strategol fel ei gilydd. Mae'n rhy fuan i fesur effaith lawn y grwpiau hyn, ond bydd yr holl argymhellion a geir yn y brosesau MGA ac Adolygiad Cyfnodol o Ansawdd yn cael eu tynnu ynghyd o dan y Grŵp Goruchwylio Gwelliant mewn Ansawdd at ddibenion monitro ac adolygu. Mae gwaith yn dod yn ei flaen mewn perthynas â digideiddio'n llawn y broses ddata sy'n rhan o'r broses MGA drwy boblogi templedi o flaen llaw a chreu 'siop un alwad' i sicrhau mwy o gysondeb ac ymatebion strategol hunanwerthusol sydd â ffocws ar weithredu. Bydd cyflwyniad y plattform 'Titan' yn y cwmwl yn helpu'n sylweddol i gefnogi defnyddio gwybodaeth rheoli a gwybodaeth ddadansoddol am y dysgu.

126 Mae amrywiaeth eang o fentrau ffurfiol a mentrau anffurfiol i gasglu llais y myfyrwyr fel yr amlinellwyd yn Adran 2. Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr anawsterau yn y gorffennol i werthuso gweithgareddau i gasglu llais y myfyrwyr o fewn unedau. Mae camau gweithredu penodol yn cael eu cymryd yn awr i gryfhau hunanwerthusiad, drwy gasglu data'n systematig. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglen hunanwerthuso i annog mwy o werthusiad o lais y myfyrwyr ar lefel leol. Cynhyrchir adroddiad Gwybodaeth o Arolygon Myfyrwyr yn flynyddol, ochr yn ochr ag adroddiad Gwerthusiad o Lais y Myfyrwyr, i'w ystyried gan y Pwyllgor LIAA. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a nodwyd bod llawer o gyfleoedd i ddylanwadu ar newid, yn cynnwys cynllun y cwricwlwm.

127 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd da o ddata meintiol a data ansoddol fel ei gilydd i helpu'r prosesau hunanwerthuso ac i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau, a bod llawer o gamau gweithredu cadarnhaol yn digwydd i gryfhau rôl y dadansoddiad data ymhellach mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd.

5 Darpariaeth gydweithredol

5.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

128 Yn unol â'i chenhadaeth a'i gweledigaeth, mae'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd dysgu i amrywiaeth eang o fyfyrwr gan gynnwys drwy ei phartneriaethau. Mae ei Chynllun Strategol cyfredol yn rhedeg hyd flwyddyn academaidd 2021-22, ac mae cynllun newydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Amlinellodd aelodau uwch o'r staff y ffaith y bydd cynlluniau'r dyfodol ar gyfer partneriaethau cydweithredol yn alinio â'r cynllun strategol newydd, ac y bydd angen cydbwysu risg, amrywiaethu incwm a pharhau i sicrhau ansawdd a chysondeb dulliau'r Brifysgol.

129 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi diwygio dogfen deipoleg o ddarpariaeth gydweithredol sy'n disgrifio'r gwahanol fathau o bartneriaethau y mae hi'n eu ffurfio. Mae partneriaethau Categori A (lle mae trydydd parti'n gyfrifol am brofiad y myfyrwr, cymorth i'r myfyrwr a chynllunio, darparu ac asesu rhaglenni sy'n arwain at ddyfarnu credydau academaidd/ cymwysterau/modiwlau ffurfiol y Brifysgol) yn cynnwys:

- Partneriaethau Dilysu
- Partneriaethau Cwricwlwm
- Partneriaethau Trosglwyddo
- Graddau Ymchwil Cydweithredol.

Mae'r Brifysgol yn disgrifio cydberthnasau Categori B fel Gweithgareddau Partneriaeth Eraill; Categori C fel Gwasanaethau Ategol; a Chategori D fel Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol. Yn ystod y broses adolygu hon, bu'r tîm yn ystyried sampl o bartneriaethau Categori A.

130 Gan y Brifysgol y mae'r cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd ac ansawdd ei dyfarniadau, ac mae ganddi strwythur effeithiol o lywodraethu a rheoli materion academaidd i oruchwylio ei darpariaeth gydweithredol. Mae gan y Senedd y cyfrifoldeb cyffredinol sy'n cael ei gyflawni gan y Pwyllgor Addysg (ac eithrio am bartneriaethau sydd â myfyrwr ymchwil) drwy ei Phwyllgor Partneriaethau Cwricwlwm (Pwyllgor PC). Mae gan y Pwyllgor PC awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo, addasu a dirymu trefniadau cydweithredol, ac i ddilysu rhaglenni astudio a gynigir gan bartneriaid y Brifysgol sy'n arwain at ei dyfarniadau. Mae aelodaeth y Pwyllgor PC yn cynnwys cynrychiolwyr y staff o bob rhan o'r Brifysgol a'i phartneriaid, cynrychiolwyr y myfyrwr, a hyd at dri aelod cyfetholedig a allai ddod o'r tu allan i'r Brifysgol. Mae cofnodion a phapurau'r Pwyllgor PC yn dangos bod y ddarpariaeth gydweithredol a addysgir wedi ei goruchwylio'n gydwybodol. Mae'r Pwyllgor Addysg yn goruchwylio ansawdd a safonau'r ddarpariaeth gydweithredol a addysgir drwy adroddiadau a chofnodion y Pwyllgor PC a'i aelodau. Er enghraifft, mae Cadeirydd y Pwyllgor PC yn aelod o'r Pwyllgor Addysg hefyd.

131 Yn dilyn adolygiad o'r prosesau o reoli Partneriaethau Cwricwlwm yn 2019-20, ail-sefydlwyd y Grŵp Rheoli Partneriaethau Cwricwlwm a chafodd y grŵp gyfarfod ym mis Ionawr 2020. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i'r Pwyllgor PC, yn cefnogi atebolrwydd a goruchwyliaeth weinyddol dros y ddarpariaeth gydweithredol ledled y Brifysgol, ei aelodaeth a'i gylch gwaith, ac yn hwyluso rhannu arferion da. Mae'r grŵp yn cadw'r Gofrestr o Ddarpariaeth Gydweithredol. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth i ddangos yn glir bod y grŵp yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor PC.

132 Mae modd i ddarparwr heb bwerau dyfarnu graddau, sy'n cynnig darpariaeth israddedig a darpariaeth graddau meist'r a addysgir, wneud cais i gael eu cymeradwyo i gynnig rhaglenni a ddilysir sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol Agored. Mae Partneriaethau Dilysu'r Brifysgol Agored (OUVP) yn goruchwylio'r ddarpariaeth a ddilysir ganddi. O ganlyniad i adolygiad o

fusnes y partneriaethau yn 2019-20, casglwyd yr OUVP a'r Uned Datblygu Busnes at ei gilydd o dan gyfrifoldeb y Prif Swyddog Cyllid. Mae rhagor o waith ar droed erbyn hyn i ganfod y strwythur gorau i gefnogi tyfiant a gwelliant ym mhartneriaethau'r Brifysgol. Mae uwch dîm rheoli'r OUVP yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr a thri Dirprwy Gyfarwyddwr. Yn ddiweddar, methodd y Brifysgol â phenodi ymgeisydd addas i swydd Cyfarwyddwr yr OUVP, ac mae'r Gyfarwyddwr Dros Dro wedi cymryd rôl y Cyfarwyddwr. Mae Grŵp Rheoli Ansawdd yr OUVP yn gyfrifol i uwch dîm rheoli'r OUVP am faterion yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth a ddilysir. Mae cofnodion y grŵp hwn yn dangos ei fod yn gweithredu'n unol â'i gylch gwaith ac yn rhoi gwybod am faterion perthnasol i'r Pwyllgor PC. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2021, ystyriodd cyfarfod y Pwyllgor PC grynoded o'r addasiadau canolig i gwricwla y gofynnwyd amdanynt gan bartneriaid a ddilysir ac a gymeradwywyd gan y grŵp hwn.

133 Rheolir darpariaeth graddau ymchwil cydweithredol gan yr Ysgol Graddedigion. Mae'r Brifysgol yn cymeradwyo Canolfannau Ymchwil Cysylltiol i dderbyn myfyrwyr i gyrsiau sy'n arwain at ei graddau ymchwil. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei goruchwyllo'n effeithiol gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil, sy'n cynnwys aelodau o staff y Canolfannau Ymchwil Cysylltiol a chynrychiolwyr y myfyrwyr.

134 Datblygir a rheolir Partneriaethau Cwricwlwm yn y cyfadrannau. Yn ddiweddar, mae'r OUVP wedi cymryd yr awenau ar y gwaith o reoli a goruchwyllo Partneriaethau Cwricwlwm yn ganolog. Ar lefel y cyfadrannau, mae Pwyllgorau Addysgu'r Cyfadrannau, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Addysg, yn goruchwyllo'r Partneriaethau Cwricwlwm.

135 Mae'r partneriaethau'n cael eu llywio gan Gytundebau Cydweithredol sy'n amrywio yn dibynnu ar y math o bartneriaeth ac sy'n nodi cyfrifoldebau'r Brifysgol a'r partner. Rhoddwyd esiamplau cyfoes i'r tîm adolygu oedd wedi eu llofnodi a'u dyddio gan y ddwy ochr. Y Brifysgol sy'n cyflwyno'r tystysgrifau ar gyfer ei holl ddyfarniadau.

5.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

136 Mae gan y Brifysgol bartneriaethau â cholegau, prifysgolion a sefydliadau eraill ar draws pedair gwlad y DU ac yn rhyngwladol. Yn ystod 2018-19, roedd 38,526 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru ar raglenni a ddilysir mewn 42 o sefydliadau. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu ers yr Adolygiad Addysg Uwch blaenorol a gafwyd gan QAA yn 2015 ac mae lefel uwch o gymorth ar waith erbyn hyn hefyd. Yn ystod 2018-19, mae Partneriaethau Cwricwlwm wedi cyfrif am 951 o fyfyrwyr mewn 21 sefydliad. Mae cyfanswm o 208 o fyfyrwyr yn astudio ar raglenni graddau ymchwil y Brifysgol drwy 18 o Ganolfannau Ymchwil Cysylltiol. Mae'r nifer o Ganolfannau Ymchwil Cysylltiol wedi gostwng ers yr adolygiad blaenorol a gafwyd gan QAA er, ar adeg yr adolygiad hwn, roedd un Ganolfan Ymchwil Gysylltiol newydd wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

137 Mae cytundebau trosglwyddo â sefydliadau allanol wedi eu cynnwys erbyn hyn yng nghwmpas darpariaeth gydweithredol y Brifysgol, ac mae'r cytundebau hyn yn cefnogi'r myfyrwyr i drosglwyddo i astudiaethau ar lefel uwch. O ganlyniad i adolygiad o'r cytundebau hyn yn hydref 2020, cymeradwywyd tri Chytundeb Trosglwyddo yn ôl-weithredol i sicrhau ymlyniad â'r broses a ddefnyddir ar gyfer Partneriaethau Cwricwlwm.

138 Heblaw am Brentisiaethau Gradd (yr adroddwyd amdanynt ar wahân), mae nifer fechan o raglenni'r Brifysgol yn cynnig elfen ddysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys rhaglenni sydd ag achrediad cyrff PSRB mewn Podiatreg, Nyrsio, a Gwaith Cymdeithasol, a Graddau Sylfaen mewn Peirianneg.

139 Cofnodir partneriaethau yng Nghofrestr o Ddarpariaeth Gydweithredol y Brifysgol sy'n cael ei diweddarau bob chwarter.

5.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

140 Mae'r prosesau sy'n ymwneud â dyfarniadau a ddilysir wedi eu disgrifio yn y Llawlyfr Dyfarniadau a Ddilysir cynhwysfawr. Ers 1 Medi 2015, mae'n rhaid i'r partneriaid gydymffurfio â'r Rheoliadau Dyfarniadau a Ddilysir y Brifysgol Agored, gan sicrhau felly bod y partneriaid i gyd yn dilyn yr un rheoliadau.

141 Mae'r broses o gymeradwyo partneriaid a ddilysir a'u darpariaeth yn gynhwysfawr ac yn cynnwys nifer o gamau. Cymeradwyr sefydliadau a rhaglenni am gyfnod o bum mlynedd fel arfer. Wedi hynny, mae'n rhaid i'r sefydliadau gael eu hadolygu a rhaid ail-gymeradwyo'r rhaglenni. Ond byddai'n ofynnol gwneud adolygiad yn gynharach os byddai arholwr allanol yn codi pryderon difrifol neu unrhyw bryderon cyffredinol eraill am yr ansawdd. Mae adroddiadau digwyddiadau cymeradwyo'n dangos proses drwyadl sy'n sicrhau bod y safonau academiaidd yn cael eu gosod a'u cynnal ar lefel briodol, bod ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr yn briodol, a bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol. Mae'r panelau cymeradwyo'n cynnwys o leiaf un aelod allanol. Ym mis Mai 2020, yn sgil y pandemig, cymeradwywyd proses ddilysu o bell gan y Pwyllgor PC, ac mae'r tîm o'r farn bod y broses hon yn briodol i'r amgylchiadau cyfredol.

142 Mae proses fonitro flynyddol gadarn ar waith, ac mae pob partner a ddilysir yn cynhyrchu adroddiad monitro blynyddol cynhwysfawr sy'n cynnwys y manylion diweddaraf am y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion a gafwyd ym mhroses y flwyddyn flaenorol. Adolygir yr adroddiadau hyn gan Grŵp yr Adolygiad Monitro Blynyddol, a gynullwyd gan y Pwyllgor PC, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol a'i phartneriaid. Mae adroddiad y grŵp i'r Pwyllgor PC yn nodi themâu, arferion da, pryderon a chamau gweithredu gofynnol, a rhoddir gwybod i'r partner am unrhyw bryderon y mae angen gweithredu arnynt ar frys. Unwaith y bydd unrhyw gamau gweithredu brys wedi eu cyflawni, bydd y partner yn derbyn llythyr sy'n cadarnhau bod y broses wedi ei chwblhau.

143 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno system newydd ar gyfer monitro'r sefydliad a'r rhaglenni, gyda'r nod o sefydlu proses fonitro barhaus sy'n fwy dynamig yn lle un adroddiad blynyddol unigol. Mae'r system hon yn cael ei gweithredu mewn tri cham. Cwblhawyd y cam cynnar o fabwysiadu'r system yn ystod blwyddyn academiaidd 2019-20, a Cham 2 yn 2020-21, a bwriedir cwblhau Cam 3 yn 2021-22. Mewn adroddiad gwerthuso am y broses ddiwygiedig, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor PC ym mis Mai 2020, nodwyd bod yr adborth a gafwyd am y broses wedi bod yn gyffredinol gadarnhaol, a chadarnhaodd aelodau o staff y partneriaid a ddilysir eu bod yn gweld y system newydd yn fwy dynamig.

144 Mae newidiadau bychain, canolig a mawr i raglenni wedi eu diffinio'n glir. Mae newidiadau bychain i raglenni'n cael eu nodi yn adroddiadau'r broses fonitro flynyddol, ond nid yw newidiadau o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol gan y Brifysgol. Gellir gwneud newidiadau mawr y tu allan i'r broses ail-ddilysu, ond maent yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor PC. Mae'n rhaid i addasiadau canolig gael eu cymeradwyo gan y Grŵp Rheoli Ansawdd, sy'n adrodd am hyn i'r Pwyllgor PC. Mae'r partneriaid yn ymwybodol o'r prosesau ar gyfer gwneud newidiadau i raglenni. Yn sgil y pandemig, sefydlwyd proses garlam gan yr OUVP ar gyfer adolygu a chymeradwyo newidiadau mawr i gynnwys cwricwla'r partneriaid a'r dulliau o'u darparu er mwyn cefnogi addysgu ar-lein. Cyflwynwyd nifer o newidiadau i'r Pwyllgor PC i gael eu cymeradwyo.

145 Cadarnheir trefniadau asesu yn ystod y broses gymeradwyo. Mae myfyrwyr y partneriaid a ddilysir yn gyffredinol fodlon bod y meini prawf asesu'n eglur a bod yr adborth ar asesuadau'n amserol ac yn ddefnyddiol, ond nodwyd rhywfaint o amrywiaeth rhwng gwahanol bartneriaethau. Penodir arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan y Brifysgol, ac maent

yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Brifysgol a'i phartner perthnasol, ac mae'r partner yn ymateb yn ffurfiol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn gyffredinol gadarnhaol ac yn cadarnhau bod y safonau academaidd yn cael eu cynnal. Caiff unrhyw bryderon sy'n codi eu trafod gyda'r partneriaid. Os bydd y pryderon yn ddifrifol neu'n parhau heb eu datrys, gallai'r Brifysgol ofyn am ail-ddilysiad neu adolygiad o'r sefydliad, neu ddirymu cofrestriad y sefydliad dros dro. Mae'n rhaid i arholwyr allanol a chynrychiolwyr y Brifysgol fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Byrddau Arholwyr a gynhelir yn y sefydliadau a ddilysir. Mae'r Panel Cymeradwyo Canlyniadau Modiwlau a Dosbarthu Cymwysterau'n derbyn unrhyw argymhellion a gafwyd gan y byrddau hyn, ac adroddiad blynyddol sy'n rhoi crynodeb o'r holl ddyfarniadau a ddilysir sydd wedi eu dyfarnu. Mae Byrddau wedi eu cynnal o bell ers dechrau'r pandemig.

146 Mae trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth ac adborth y myfyrwyr yn cael eu cytuno a'u hadolygu drwy brosesau cymeradwyo ac ail-gymeradwyo'r Brifysgol, ac mae'r trefniadau hyn yn derbyn sylw mewn adroddiadau monitro blynyddol. Dywedodd y myfyrwyr fod dulliau priodol yn cael eu defnyddio ar lefel leol ar gyfer cynrychiolaeth ac adborth y myfyrwyr. Mae gweithdrefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd wedi eu nodi yn llawlyfrau myfyrwyr y partneriaid ac yn y Llawlyfr Dyfarniadau a Ddilysir, ac maent yn derbyn sylw yn adroddiadau'r broses fonitro flynyddol. Ar ôl gweithredu'r gweithdrefnau apeliadau academaidd cyflawn ar lefel leol, gall y myfyrwyr apelio'n ffurfiol i'r Brifysgol. Mae myfyrwyr y partneriaid yn gwybod ymhle i gael gafael ar y prosesau hyn.

147 Datblygir cynllun ymadael pwrpasol ar gyfer pob partneriaeth a fydd yn cau, a bydd y Pwyllgor PC yn goruchwyllo'r cynllun hwn. Darparwyd esiamplau manwl i ddangos bod buddiannau'r myfyrwyr wedi eu diogelu, bod y safonau academaidd wedi eu cynnal a bod y Brifysgol wedi parhau i roi cefnogaeth yn ystod y cyfnod cau.

148 Mae Rheolwyr ac Uwch Reolwyr Ansawdd a Phartneriaethau'r OUVF a'r adolygwyr academaidd a enwebir gan y cyfadrannau'n gweithredu fel cysylltiadau academaidd ac yn chwarae rôl bwysig mewn cefnogi a gwella'r partneriaethau a ddilysir. Mae llawlyfr cynhwysfawr ar gael i'r rheolwyr a'r uwch reolwyr hyn i'w cefnogi yn eu gwaith. Mae adolygwyr academaidd yn derbyn amser neilltuedig a hyfforddiant ar gyfer eu rolau. Mae disgrifydd rôl newydd ar gyfer adolygwyr academaidd, a weithredwyd yn 2019, yn dangos eu bod yn cyflawni rolau monitro a gwella allweddol sy'n cynnwys: cyflwyno adroddiad blynyddol; cymeradwyo enwebiadau i swyddi arholwyr allanol; cymeradwyo curricula vitae aelodau newydd o staff (neu olynwyr); a chynnal cyfarfodydd â'r myfyrwyr a thimau'r rhaglenni.

149 Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethpwyd Adolygiad Cyfnodol o Ansawdd pwrpasol trwyadl i adolygu'r prosesau o reoli'r safonau academaidd a gwella ansawdd y dyfarniadau a ddilysir. Mae'r panel wedi ymgysylltu â nifer o'r rhanddeiliaid a'r partneriaid. Yn yr adroddiad cynhwysfawr a gymeradwywyd gan y Pwyllgor LIAA ym mis Chwefror 2021 ac a anfonwyd at y Pwyllgor PC ym mis Mawrth 2021, nodwyd naw canmoliaeth, saith cadarnhad a phum argymhelliad, gan gadarnhau bod modd teimlo'n hyderus am y ffordd y rheolir safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth a ddilysir, a rhoi cyngor defnyddiol i'r Brifysgol a'r OUVF ar gyfer y dyfodol.

150 Mae'r modiwlau a'r cymwysterau a ddarperir drwy Partneriaethau Cwricwlwm yn atebol i brosesau safonol y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu. Mae Grŵp Craffu'r Adolygiad Blynyddol, sef is-grŵp y Pwyllgor PC, yn adolygu Partneriaethau Cwricwlwm yn flynyddol, ac mae unrhyw ganmoliaethau neu argymhellion i'w gweithredu ar frys yn cael eu bwydo yn ôl i'r cyfadrannau. Gall y Grŵp Craffu hefyd ofyn i'r cyfadrannau lunio papur 'gwersi a ddsgrwyd' i'r Pwyllgor PC pan fo partneriaethau'n cael eu cau. Mae'r crynodeb o ganlyniadau'r adolygiad a gafwyd yn 2020 yn dangos, mewn rhai achosion, nad oedd y cyfadrannau wedi cwblhau rhai camau gweithredu oedd yn weddill o'r flwyddyn flaenorol, a bod pryderon yn bodoli yn ymwneud â'r ffaith nad oedd unrhyw gytundebau contract priodol a chyfoes ar gyfer rhai Partneriaethau Cwricwlwm. Dywedwyd wrth y tîm bod y mater olaf hwn yn derbyn

syllw yn rhan o'r gwaith sydd ar droed yn ymwneud â Phartneriaethau Cwricwlwm (fel y'u disgrifiwyd ym mharagraff 151) ac y bydd yr OUVF yn cymryd y cyfrifoldeb am sicrhau bod contractau yn eu lle ar gyfer pob Partneriaeth Cwricwlwm.

151 Yn 2019, canfu'r Brifysgol nifer o wendidau yn y prosesau cyfredol i reoli Partneriaethau Cwricwlwm, a chymerwyd camau i ymdrin â'r materion hyn a sicrhau bod y prosesau'n fwy cyson rhwng y cyfadrannau a bod y prosesau'n parhau i gydymffurfio â'r disgwyliadau rheoleiddiol. Yn ystod 2020-21, mae'r Gweithgor Partneriaethau Cwricwlwm newydd, sy'n adrodd i'r Pwyllgor PC, wrthi'n adolygu'r dogfennau a'r systemau. Mae'r camau gweithredu (a'u cynnydd) sy'n codi o'r Adolygiad Blyneddol o Bartneriaethau wedi eu hychwanegu fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Partneriaethau Cwricwlwm a chyflwynir adroddiadau am gynnydd i'r Pwyllgor PC. Mae'r Pwyllgor PC wedi derbyn sicrhau gan y cyfadrannau hefyd bod cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu lle ar gyfer yr holl bartneriaethau cydweithredol nas dilysir lle bo'n briodol. Mae'r Gweithgor Partneriaethau Cwricwlwm wedi cyflawni nifer o'i amcanion penodedig yn barod, gan gynnwys diwygio'r ddogfen deipoleg o ddarpariaeth gydweithredol a diweddarau'r Gofrestr o Ddarpariaeth Gydweithredol. Mae'r gweithgor hefyd wedi llunio canllaw sy'n amlinellu'r trefniadau arfaethedig ar gyfer llywodraethu Partneriaethau Cwricwlwm, a rhannwyd y canllaw yng nghyfarfodydd diweddar Pwyllgorau Addysgu'r cyfadrannau. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** r camau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu a ffurfioli'r prosesau cefnogol ar gyfer sefydlu, rheoli a goruchwyllo Partneriaethau Cwricwlwm er mwyn sicrhau cysondeb arferion rhwng ei holl gyfadrannau.

152 Fel y nodwyd uchod (gwelwch baragraff 133), mae gan yr Ysgol Graddedigion y cyfrifoldeb cyffredinol am raddau ymchwil cydweithredol a ddarperir drwy Ganolfannau Ymchwil Cysylltiol. Mae pob Canolfan Ymchwil Gysylltiol (CYG) yn cael ei rheoli gan Gyfarwyddwr CYG a Chydlynedd CYG. Gan y Brifysgol y mae'r cyfrifoldeb am ei safonau academiaidd ac ansawdd profiad ei myfyrwyr, ac mae rheoliadau a gweithdrefnau graddau ymchwil y Brifysgol hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru drwy Ganolfannau Ymchwil Cysylltiol. Mae'r Grŵp Rheoli CYG, sy'n adrodd i'r Ysgol Graddedigion a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, yn cynnwys aelodau mewnol ac allanol. Mae'r grŵp yn craffu ar bob cais myfyriwr, pob cais am uwchraddio, pob adroddiad monitro cynnydd a chyfansoddiad pob panel arholi, cyn eu cyflwyno i Gyfarwyddwr yr Ysgol Graddedigion neu Gadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Mae'n rhaid i oruchwylwyr ymchwil mewn Canolfannau Ymchwil Cysylltiol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol a'u hyfforddi gan y Brifysgol.

153 Yn 2019, adolygwyd a symleiddwyd camau cychwynnol y broses ymholi ac ymgeisio ar gyfer Canolfannau Ymchwil Cysylltiol. Mae gan y Brifysgol broses briodol gyda chamau niferus ar gyfer cymeradwyo Canolfannau Ymchwil Cysylltiol sy'n cynnwys ymweliad cymeradwyo a gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Y Pwyllgor Graddau Ymchwil sy'n gyfrifol am gymeradwyo Canolfannau Ymchwil Cysylltiol. Hefyd, mae cymeradwyaeth derfynol y statws Canolfan Ymchwil Gysylltiol yn amodol ar lofnodi cytundeb sefydliadol rhwng y Brifysgol a'r Ganolfan Ymchwil Gysylltiol.

154 Mae gan y Brifysgol broses safonol o fonitro sefydliadau'n flynyddol sy'n sicrhau bod ansawdd profiad y myfyrwyr mewn Canolfannau Ymchwil Cysylltiol yn cael ei oruchwyllo a'i wella. Mae'r adroddiadau gan y Canolfannau Ymchwil Cysylltiol yn cael eu hadolygu gan grŵp craffu'r broses fonitro hon sy'n cyflwyno canlyniadau ei waith dadansoddi i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Mae'r adroddiad dadansoddi yn nodi meysydd o arfer da, meysydd sydd angen eu gwella, ac unrhyw faterion sydd angen sylw ar lefel y Brifysgol. Mae hefyd yn cynnwys y manylion diweddaraf am y camau gweithredu a chymerwyd mewn ymateb i adroddiadau blaenorol prosesau monitro neu adolygu. Hefyd, mae Canolfannau Ymchwil Cysylltiol yn derbyn ymweliadau adolygu bob tair blynedd gan weinyddwr ac aelod o staff academiaidd sydd hefyd yn ystyried amrediad cynhwysfawr o ddogfennau. Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn ystyried yr adroddiadau a geir o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn. Mae'r adroddiadau'n gynhwysfawr

ac yn nodi canmoliaethau ac argymhellion i'r Ganolfan Ymchwil Gysylltiol a'r Brifysgol wneud gwaith dilynol arnynt.

155 Roedd y partneriaid i gyd yn canmol y gefnogaeth y mae'r Brifysgol yn ei rhoi i sicrhau a gwella ansawdd ei darpariaeth, gan gynnwys y gefnogaeth ychwanegol a roddwyd iddynt mewn ymateb i'r pandemig, a'r gefnogaeth wrth iddynt baratoi ar gyfer digwyddiadau cymeradwyo ac adolygu. Mae partneriaid a ddilysir a sefydliadau sy'n darparu Partneriaethau Cwricwlwm yn derbyn cefnogaeth reolaidd a werthfawrogrir drwy'r rhwydwaith o adolygwyr academiaidd a Rheolwyr ac Uwch Reolwyr Ansawdd a Phartneriaethau. Mae cyfleoedd datblygiad staff a chyfleoedd rhwydweithio ar gael i staff y partneriaid, gan gynnwys: hyfforddiant i oruchwylwyr sy'n gweithio mewn Canolfannau Ymchwil Cysylltiol; cyfres o seminarau a gynigir i bartneriaid a ddilysir sy'n ymwneud â materion megis iechyd meddwl y myfyrwyr, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC), a chamymddwyn academiaidd; sesiynau Cymuned Ymarfer blynyddol i staff addysgu sydd yn eu blynyddoedd cynnar, a chylchlythyr chwarterol yr OUVF. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gefnogaeth gynhwysfawr ac effeithiol y mae'r Brifysgol yn ei rhoi i'w phartneriaid er mwyn sicrhau a gwella ei darpariaeth gydweithredol.

156 Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer fechan o raglenni sy'n cynnwys elfen o ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r cymwysterau hyn yn atebol i'r un prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu â'r ddarpariaeth a addysgir arall, ond rhoddir cytundeb rhwng y ddwy neu'r tair ochr ar waith hefyd sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Brifysgol, y cyflogwr a'r myfyriwr am yr elfen ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r Brifysgol yn defnyddio dull effeithiol o reoli'r elfennau hyn o'i rhaglenni; mae'r dull hwn yn cyfateb â'r Disgwyliadau a'r Arferion sy'n ymwneud â dysgu seiliedig ar waith sydd wedi eu nodi yn y fersiwn ddiwygiedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU. Mae'r myfyrwyr a'r cyflogwyr yn derbyn cyfres gynhwysfawr o ddogfennau a llawlyfrau cefnogol.

QAA2601 - R11988 - Mai 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021
Adeilad Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk